

Cynllun Datblygu Lleol

Bro Morgannwg


2011- 2026

# Cynllun Datblygu Lleol



Adroddiad Adolygu  
Drafft

Tachwedd 2021



# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG

## ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT

TACHWEDD 2021

**MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG AC MEWN FFORMATAU ERAILL AR  
GAIS E.E. FFONT MWY**



## TABL CYNNWYS

1.	Crynodeb Gweithredol .....	1
1.1.	Diben yr Adroddiad Adolygu .....	1
1.2.	Ymgynghoriad .....	1
2.	Cyflwyniad.....	2
3.	Newidiadau Cyd-destunol, Deddfwriaethol a Pholisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI .	3
3.2.	Deddfwriaeth .....	3
3.3.	Polisi / Cynlluniau Cynllunio Cenedlaethol.....	6
3.4.	Y Cyd-destun Rhanbarthol.....	11
3.5.	Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos .....	12
3.6.	Cynlluniau a Strategaethau Cyngor Bro Morgannwg.....	13
4.	Newidiadau i'r Sylfaen Dystiolaeth .....	18
4.1.	Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Llywodraeth Cymru.....	18
4.2.	Ystyriaethau Economaidd .....	25
4.3.	Casgliad .....	30
5.	Canfyddiadau Allweddol yr Adolygiad Monitro Blynyddol.....	31
5.2.	Monitro Cynaliadwyedd.....	31
6.	Adolygiad o'r CDLI a Newidiadau Posibl i'r Dyfodol .....	33
6.1.	Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y CDLI.....	33
6.2.	Adolygiad o Amcanion y CDLI.....	34
6.3.	Adolygiad o Strategaeth CDLI Bro Morgannwg .....	37
6.4.	Casgliadau Cyflawni Strategaeth CDLI.....	52
7.	Adolygu Polisiâu'r CDLI .....	53
7.2.	Tai - Polisiâu SP3, SP4, MG1, MG2, MD5, MD6, MD10, MD11, MD12 .....	53
7.3.	Llety Sipsiwn a Theithwyr - Polisiâu MG5, MD18 .....	54
7.4.	Cyflogaeth - Polisiâu SP5, MG9, MD14, MD15, MD16, MD17.....	54
7.5.	Safleoedd Strategol - Polisiâu SP2, MG3, MG10, MG11 .....	55
7.6.	Manwerthu - Polisiâu SP6, MG12, MG13, MG14, MG15 .....	56
7.7.	Twristiaeth - Polisiâu SP11, MG29 ac MD13.....	58
7.8.	Seilwaith Trafnidiaeth - Polisiâu SP7 ac MG16 .....	58
7.9.	Rhwymedigaethau Cynllunio a Chyfleusterau Cymunedol - Polisiâu MD4, MG6, MG7, MG28	59
7.10.	Polisiâu Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd - SP10, MG17, MG18, MG19, MG20, MG21, MG27, MD9 .....	62
7.11.	Dylunio – Polisiâu MD1, MD2, MD3, MD5, MD6 .....	63
7.12.	Mwynau – Polisiâu MG22, MG23, MG24, MG25 AC MG26.....	63
7.13.	Ynni Adnewyddadwy - Polisiâu MG30 AC MD19 .....	65

7.14.	Gwastraff – Polisiâu SP8 ac MD20.....	67
7.15.	Canllaw Cynllunio Atodol .....	68
7.16.	Map Cynigion a Map Cyfyngiadau .....	68
8.	Gofynion sylfaen dystiolaeth y dyfodol .....	69
8.2.	Arfarniad Cynaliadwyedd gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.....	69
8.3.	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.....	69
9.	Opsiynau i'w Hadolygu .....	70
9.2.	CDLlau ar y Cyd a Chydweithio .....	70
10.	Casgliadau a Chamau Nesaf .....	71
10.1.	Casgliadau .....	71
10.2.	Argymhelliad.....	71
11.	Atodiadau .....	72
11.1.	Atodiad 1: Cynnydd a Wnaed ar Ddyraniadau Tai'r CDLI .....	72
11.2.	Atodiad 2: Cynnydd a Wnaed o ran Darparu Safleoedd Tai Fforddiadwy y CDLI .....	77
11.3.	Atodiad 3: Cynnydd a Wnaed ar Ddyraniadau Cyflogaeth y CDLI .....	79
11.4.	Atodiad 4: Cynnydd a Wnaed o ran Darparu Seilwaith Trafnidiaeth y CDLI .....	81
11.5.	Atodiad 5: Tabl Arfarnu Adolygiad Polisi'r CDLI.....	83

## RHESTR TABLAU

Tabl 1:	Y 7 Nod Lles i Gymru .....	3
Tabl 2:	Gofyniad Preswyl y CDLI ar Adnau.....	19
Tabl 3:	Gofyniad Preswyl CDLI Mabwysiedig .....	20
Tabl 4:	Cymharu Amcanestyniadau .....	21
Tabl 5:	Dyraniadau Cyflogaeth CDLI Mabwysiedig .....	26
Tabl 6:	Crynodeb o Ganlyniadau AMB y CDLI.....	31
Tabl 7:	Cymharu Amcanion presennol y CDLI a Nodau Lles Cenedlaethol ac Amcanion Cynllun Lles Bro Morgannwg.....	35
Tabl 8:	Cyflenwad Anheddau'r CDLI Mabwysiedig.....	39
Tabl 9:	Dosbarthiad gofodol twf tai 2011-2021 .....	41
Tabl 10:	Cymeradwyaethau Cynllunio ar Dir Cyflogaeth .....	42
Tabl 11:	Swyddi a Ddarperir drwy Gymeradwyaethau Cynllunio ar Ddyraniadau Cyflogaeth .....	44
Tabl 12:	Swyddi Disgwyliedig a Ddarperir gan Ddyraniadau Cyflogaeth CDLI Mabwysiedig .....	45
Tabl 13:	Crynodeb o Gymeradwyaethau Manwerthu Cyn Mabwysiadu'r CDLI.....	48
Tabl 14:	Cyfraddau Unedau Gwag mewn Canolfannau Tref ac Ardal .....	48
Tabl 15:	Canran y Defnyddiau ac eithrio A1 mewn Canolfannau Tref ac Ardal .....	56
Tabl 16:	Nifer a Gwerth y cyfraniadau a sicrhawyd y flwyddyn 2011-2021 .....	60

## RHESTR FFIGURAU

Ffigur 1: Cymru'r Dyfodol - Diagram Strategol Rhanbarth De-ddwyrain Cymru .....	8
Ffigur 2: Cymharu Twf Poblogaeth yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn.....	22
Ffigur 3: Cymharu Twf Poblogaeth yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn.....	23
Ffigur 4: Cymharu Twf Aelwydydd yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn.....	24
Ffigur 5: Cymharu Cyfradd Newid Aelwydydd yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn.....	25
Ffigur 6: Cymharu Amcanestyniadau'r Llafurlu .....	28
Ffigur 7: Cymharu Amcanestyniadau Swyddi .....	29
Ffigur 8: Gorffeniadau Anedd Blyneddol 2011-2021 a Gorffeniadau Anedd Blyneddol Amcanestynedig 2021-2026 .....	38
Ffigur 9: Datblygiadau Annisgwyl yn ôl Hierarchaeth Aneddiadau y CDLI dros y cyfnod 2011-2021 ..	40

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

## 1.1. DIBEN YR ADRODDIAD ADOLYGU

- 1.1.1. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) ddiweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) ac ystyried yr angen i adolygu naill ai drwy eu Hadroddiad Monitro Blynyddol (AMB) neu ar ôl cyrraedd 4 blynedd ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Nododd y 3<sup>ydd</sup> AMB (Hydref 2021) fod adolygiad wedi'i sbarduno ym mis Mehefin 2021 yn unol â Rheoliad CDLI 41 ac argymhellodd y dylai'r Cyngor ddechrau gweithio ar CDLI newydd yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i Gytundeb Cyflawni (CC) newydd.
- 1.1.2. Dim ond drwy adolygu'r cynllun ffurfiol y gellir gwneud newidiadau i CDLI mabwysiedig. Y cam cyntaf yw llunio Adroddiad Adolygu, a fydd yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ffurf a chynnwys y Cynllun diwygiedig ac a gyflwynir i'r Arolygydd i'w archwilio maes o law.
- 1.1.3. Mae dau lwybr adolygu ar gael i ddewis ohonynt wrth ystyried sut i adolygu CDLI. Yn gyntaf, ceir Adolygiad Llawn o'r Cynllun yn dilyn yr un gweithdrefnau ag a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun mabwysiedig, neu'n ail, y weithdrefn Adolygiad Byr lle mae gan y paramedrau i'w hystyried lawer mwy o ffocws a llai o gwmpas.
- 1.1.4. Diben yr Adroddiad Adolygu hwn yw ystyried y newidiadau cyd-destunol, deddfwriaethol a pholisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI sy'n cyfiawnhau diwygiadau i'r Cynllun. Mae'r adolygiad hefyd yn archwilio perfformiad y CDLI o ran sut mae'r polisiâu wedi cyflawni gweledigaeth, nodau a strategaeth y Cynllun gan ystyried canfyddiadau'r tri AMB a gynhaliwyd gan y Cyngor ers mabwysiadu'r Cynllun.

## 1.2. YMGYNGHORIAD

- 1.2.1. Mae'r Cyngor yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y materion a nodir yn yr Adroddiad Adolygu drafft hwn. Gofynnir am farn ar y materion y dylid eu hystyried yn yr adolygiad llawn o'r CDLI, ynghyd â'r newidiadau posibl dilynol sydd eu hangen ar y CDLI, fel y nodir yn yr adroddiad hwn.
- 1.2.2. Gwahoddir rhanddeiliaid i roi sylwadau ar/awgrymu unrhyw faterion a/neu newidiadau ychwanegol y dylid eu hystyried yn yr adolygiad llawn o'r CDLI. Dylai unrhyw sylwadau gael eu hategu gan dystiolaeth berthnasol.
- 1.2.3. Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor ([cliciwch yma](#)). Os oes angen cymorth arnoch i gael mynediad i'r ffurflen ymgynghori neu ei llenwi, cysylltwch â Thîm Polisi'r CDLI ar 01446 704665 neu e-bostiwch [LDP@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:LDP@valeofglamorgan.gov.uk).
- 1.2.4. Mae angen cyflwyno sylwadau erbyn **ddydd Llun 31 Ionawr 2022**.

## 2. CYFLWYNIAD

- 2.1. Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 (CDLI) ar 28 Mehefin 2017. Mae'r CDLI yn nodi fframwaith polisi cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mro Morgannwg ac mae'n sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a rhesymegol ac yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o dir ac adnoddau cyfyngedig eraill.
- 2.2. Mae Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro gweithrediad eu CDLIau mabwysiedig drwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Yn unol â'r gofynion statudol, mae'r CDLI wedi'i fonitro'n flynyddol ers ei fabwysiadu, gyda 3 AMB wedi'u paratoi hyd yma.
- 2.3. I sicrhau bod CDLIau yn gyfoes, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddechrau adolygiad llawn o'u cynlluniau o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, os nad yn gynt os yw canfyddiadau'r AMBau yn dynodi pryder sylweddol ynghylch gweithrediad y Cynllun.
- 2.4. Mae'r Cyngor wedi paratoi'r Adroddiad Adolygu drafft hwn, sy'n cyflwyno hyd a lled y newidiadau tebygol i'r CDLI presennol ac yn ceisio cadarnhau'r weithdrefn adolygu a gaiff ei dilyn wrth baratoi CDLI Newydd. Cynigir y bydd y CDLI Newydd yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd (2021 i 2036) sy'n adlewyrchu dechreuad ffurfiol y CDLI Newydd yng Ngwanwyn 2022.
- 2.5. Mae'r Adroddiad Adolygu drafft wedi'i strwythuro fel yr argymhellwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020) ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:
  - Adran 3 - yn manylu ar y newidiadau polisi a'r sylfaen dystiolaeth ddeddfwriaethol, genedlaethol a lleol allweddol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI sy'n ystyriaethau pwysig i lywio adolygiad y CDLI.
  - Adran 4 - yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau'r 3 AMB blaenorol, gan amlinellu'r goblygiadau cysylltiedig ar gyfer adolygu'r CDLI.
  - Adran 5 - yn darparu asesiad o Weledigaeth, Strategaeth, Amcanion Strategol a Pholisïau Strategol presennol y CDLI sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio fframwaith defnydd tir cyffredinol y CDLI ac yn nodi'r newidiadau posibl sydd eu hangen.
  - Adran 6 - yn darparu asesiad o bolisïau Rheoli Twf a Rheoli Datblygu'r Cynllun sy'n nodi'r newidiadau posibl sydd eu hangen.
  - Adran 7 - yn ystyried pa agweddau ar y sylfaen dystiolaeth y byddai angen eu hadolygu/diweddaru wrth baratoi CDLI Newydd.
  - Adran 8 - yn ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer adolygu'r CDLI a chyfleoedd i gydweithio.
  - Adran 9 - yn rhoi casgliad ar ffurf briodol y Cynllun diwygiedig ac yn amlinellu'r camau nesaf.



### 3. NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL, DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI SYDD WEDI DIGWYDD ERS MABWYSIADU'R CDLI

3.1.1. Fel rhan o'r broses adolygu CDLI, rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i bolisiâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd â deddfwriaeth a strategaethau newydd a allai fod â goblygiadau i'r CDLI Newydd. Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r newidiadau hyn sy'n berthnasol i'r adolygiad CDLI.

### 3.2. DEDDFWRIAETH

#### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

3.2.1. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y gwaith a wneir gan y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus.

3.2.2. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod lles cenedlaethol i Gymru i wella lles cymunedau a chyflawni'r Gymru y carem ei gweld ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r nodau lles ar gyfer Cymru yn gyson ag Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy sy'n nodi 17 o Nodau Byd-eang Datblygu Cynaliadwy. Mae'r saith nod lles cenedlaethol ar gyfer Cymru wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

Tabl 1: Y 7 Nod Lles i Gymru

Nod	Disgrifiad o'r nod
<b>Cymru lewyrchus</b>	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi mwy o bobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy greu cyflogaeth o safon.
<b>Cymru gydnerth</b>	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).
<b>Cymru iachach</b>	Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol.
<b>Cymru fwy cyfartal</b>	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
<b>Cymru o gymunedau cydlynol</b>	Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel a chydgyssylltiedig.
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu</b>	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

**Cymru sy'n ymatebol yn fydeang**

Cenedl sy'n ystyried, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, p'un ai a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.

- 3.2.3. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio sydd eu hangen ar gyrff cyhoeddus i gyflawni'r saith nod lles: (1) Hirdymor; (2) Integreiddio; (3) Cynhwysiant; (4) Cydweithredu; a (5) Atal.
- 3.2.4. Gwnaeth y Ddeddf sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau lles. Mae BGC Bro Morgannwg yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi Cynllun Lles Lleol (CLLI) sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Pedwar aelod statudol y BGC yw'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 3.2.5. Ceir rhagor o fanylion am Gynllun Lles Lleol Bro Morgannwg a'r goblygiadau posibl i'r CDLI yn Adran 6.

---

**DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017**

- 3.2.6. Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac atal niweidiau iechyd y gellir eu hosgoi. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau) mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys CDLlau, a dylid cynnal y rhain fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd.

---

**DEDDF CYNLLUNIO (CYMRU) 2015**

- 3.2.7. Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016. Yn ogystal â chyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, cyflwynodd y Ddeddf sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y cyfeirir ato fel Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau).

---

**DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016**

- 3.2.8. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [Deddf yr Amgylchedd] yn nodi deddfwriaeth mewn perthynas â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd ac yn darparu ar gyfer amrywiaeth o gamau gweithredu i ddiogelu'r amgylchedd yn effeithiol ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Y prif fater ar gyfer cynlluniau datblygu yw'r gofyniad i awdurdodau lleol gynnal a gwella bioamrywiaeth.

---

**DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2016**

- 3.2.9. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 [Deddf AH] yn diwygio dau ddarn presennol o ddeddfwriaeth, sef Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf AH yn nodi ystod eang o ddarpariaethau sy'n ceisio cyflawni ei thri nod:
- rhoi gwarchodaeth fwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion;
  - gwella'r broses o reoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a
  - chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran penderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol.

- 3.2.10. Y mater allweddol ar gyfer cynlluniau datblygu yw'r gofyniad i ddiogelu adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fwy effeithiol.

---

#### DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) (2021)

- 3.2.11. Pasiwyd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) [y Bil] gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Ionawr 2021. Mae'r Bil yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o ddiwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad i weithio rhanbarthol.
- 3.2.12. O ran cynllunio defnydd tir, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Cychwylgorau Corfforaethol (CbCau) i arfer swyddogaethau penodol gan awdurdodau lleol ar sail gydweithredol drwy Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn ogystal â strategaethau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol a datblygu economaidd.

---

#### RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL) (CYMRU) 2021

- 3.2.13. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 yn pennu'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer paratoi, monitro ac adolygu CDSau. Gosodwyd y Rheoliadau ar 22 Mawrth 2021 a byddant yn dod i rym ar 28 Chwefror 2022, y dyddiad pan ddaw'r CbCau yn gwbl weithredol.
- 3.2.14. Mae'r Rheoliadau CDS yn adlewyrchu prif gamau gofynion paratoi ac adolygu'r Cynllun a amlinellir yn y Rheoliadau CDLI. Maent yn rhoi manylion am y camau allweddol, y gweithdrefnau a'r trefniadau ymgynghori y mae'n rhaid i CbCau eu dilyn wrth baratoi CDS. Maent hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer paratoi, archwilio, monitro ac adolygu CDSau a materion cysylltiedig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r darpariaethau ar gyfer cynnwys, argaeledd a chyhoeddi dogfennau.

---

#### RHEOLIADAU NEWID YN YR HINSAWDD (CYMRU) 2021

- 3.2.15. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei adroddiad cynnydd "Lleihau Allyriadau Carbon yng Nghymru". Dyma'r adroddiad cyntaf ar gynnydd Cymru tuag at gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 45 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- 3.2.16. Mae'r adroddiad cynnydd a'r cyngor yn cydnabod y camau a gymerwyd yng Nghymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr - gan gynnwys cyflawni rhai o'r cyfraddau ailgylchu cenedlaethol uchaf yn y byd, cyflawni rôl ragweithiol o ran cefnogi defnydd sylweddol o ynni adnewyddadwy, ac integreiddio ymatebion i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy gydol ei flaenoriaethau ar gyfer ailadeiladu'r economi yn dilyn pandemig Covid-19.
- 3.2.17. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gyrraedd allyriadau sero-net erbyn 2050 drwy gyhoeddi Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021, a ddaeth i rym ar 19 Mawrth 2021. Mae'r Rheoliadau'n sefydlu'r ymrwymiad cyfreithiol i allyriadau carbon sero-net erbyn 2050.
- 3.2.18. Mae'r Rheoliadau newydd yn rhan o'r fframwaith statudol ehangach ar gyfer lleihau allyriadau yng Nghymru, a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn diwygio'r targedau blaenorol ar gyfer 2030 a 2040 o 45% a 67% i 63% ac 89% yn y drefn honno.

---

## GWEITHREDU ATODLEN 3 O DDEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR 2010: Y DEFNYDD GORFODOL O SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY (SDCAU)

- 3.2.19. Mae perygl llifogydd yn bryder allweddol i rannau o Fro Morgannwg, ac un math o reoli dŵr y gall y system gynllunio ddylanwadu arno yw'r datrysiad Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer datblygiadau newydd. Sefydlodd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (CCDC) mewn awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldeb statudol i'r cyrff hynny dros gymeradwyo ac, mewn amgylchiadau penodol, fabwysiadu'r systemau draenio cymeradwy.
- 3.2.20. Ers 7 Ionawr 2019, mae angen SDC ar gyfer dŵr wyneb ar bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu'n dros 100 metr sgwâr. Rhaid i SDCau ar ddatblygiadau newydd gael eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol â Safonau SDCau Statudol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan CCDC yr awdurdod lleol cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.

## 3.3. POLISI / CYNLLUNIAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL


---

### CYMRU'R DYFODOL – Y CYNLLUN CENEDLAETHOL (2040)

- 3.3.1. Ar 24 Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040, fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Ar ei gyhoeddi, daeth Cymru'r Dyfodol i rym ar unwaith ac mae bellach yn rhan o'r system cynllun datblygu yng Nghymru a rhaid ei hystyried ochr yn ochr â CDLlau neu Gynlluniau Datblygu Unedol presennol mewn penderfyniadau rheoli datblygu.
- 3.3.2. Un o amcanion allweddol Cymru'r Dyfodol yw sicrhau bod y system gynllunio yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau a pholisiau strategol Llywodraeth Cymru fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, y Polisi Adnoddau Naturiol a Ffyniant i Bawb - Cymru Carbon Isel.
- 3.3.3. Mae Cymru'r Dyfodol yn adeiladu ar bolisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn amlinellu dull strategol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys creu economi gynaliadwy fywiog, datblygu ansawdd yn y lleoedd cywir am y rhesymau cywir, datgarboneiddio a gwrthsefyll yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles cymunedau.
- 3.3.4. Mae tair ardal dwf genedlaethol lle nodir blaenoriaethau o ran tai, datblygu economaidd a buddsoddiadau. Mae'r ardaloedd twf hyn yn cwmpasu Wrecsam a Glannau Dyfrdwy (Gogledd Cymru), Bae Abertawe a Llanelli (Canolbarth a De-orllewin Cymru) a Chaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd (De-ddwyrain Cymru). Ochr yn ochr â'r ardaloedd twf hyn, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi polisiau datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan.
- 3.3.5. Ymhlith y meysydd allweddol eraill a ystyrir yng Nghymru'r Dyfodol mae blaenoriaethau ar gyfer darparu tai fforddiadwy newydd, gofyniad i nodi Lleiniau Gwyrdd newydd yn rhanbarthau De-ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru (i'w nodi drwy CDSau), amcanion polisi cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ac ymrwymiad i gryfhau canol trefi drwy ddull Canol Trefi yn Gyntaf ar gyfer manwerthu a defnyddiau eraill.

- 3.3.6. Mae Bro Morgannwg yn dod o fewn Ardal Twf De-ddwyrain Cymru (gweler ffigur 1 isod) lle nodir bod Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd yn ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer twf. O fewn yr ardal dwf ehangach, mae'r ffocws ar dwf economaidd a thair strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol. Bydd penderfyniadau buddsoddi allweddol yn ceisio cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach. Mae Polisi 36 (Metro De Cymru) yn nodi y dylai CDSau a CDLlau "gynllunio twf ac adfywiad er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n deillio o gysylltedd rhanbarthol gwell, gan gynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer dwysedd uwch, defnydd cymysg a datblygiadau di-geir o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell".
- 3.3.7. Yn fwy penodol i Fro Morgannwg mae rôl Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Bro Tathan, heddiw a fory, ynghyd â Phorthladd y Barri, sydd i gyd wedi'u nodi yng Nghymru'r Dyfodol:
- "Mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac mae'n sbardun pwysig o fewn economi Cymru. Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i leoli yn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan sy'n cynnig cyfleoedd i fuddsoddi yn y safle a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Ardal Fenter yn cynnig ystod ehangach o safleoedd datblygu ac adeiladau busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau pwrpasol neu i fuddsoddi yn yr adeiladau cyfredol"* (tudalen 82).
- "Gwasanaethir y rhanbarth gan borthladdoedd yng Nghasnewydd, Caerdydd a'r Barri. Mae pob un yn chwarae rôl economaidd bwysig ac ar y cyd maent yn seilwaith allweddol yn y rhanbarth. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried rôl y porthladdoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a sefydlu fframweithiau i gefnogi eu gweithrediad a'u hehangiad posibil"* (tudalen 173).
- 3.3.8. Mewn lleoliadau gwledig, dywed Cymru'r Dyfodol y dylai twf ystyried sut mae datblygiadau'n creu cymunedau cytbwys o ran oedran yn ogystal â rôl tai fforddiadwy, cyflogaeth a gwasanaethau lleol. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltedd digidol a symudol wrth sicrhau llwyddiant economaidd, yn unol â pholisiau cenedlaethol 4 (Cefnogi Cymunedau Gwledig) a 5 (Cefnogi'r Economi Wledig).
- 3.3.9. Mae angen adolygu'r CDLI er mwyn sicrhau bod y fframwaith strategaeth a pholisi'n adlewyrchu dyheadau a blaenoriaethau ardal dwf rhanbarth y De-ddwyrain fel y nodir yng Nghymru'r Dyfodol, ac i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol ag ef.

Ffigur 1: Cymru'r Dyfodol - Diagram Strategol Rhanbarth De-ddwyrain Cymru



POLISI CYNLLUNIO CYMRU, RHIFYN 11 (CHWEFROR 2021)

3.3.10. Yn 2018, ailddrafftwyd Polisi Cynllunio Cymru i ymgorffori'r 7 nod lles a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoddwyd y cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol, gan atgyfnerthu'r angen i gynigion a phenderfyniadau cynllunio ystyried lles a chynaliadwyedd.

3.3.11. Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru ddiwethaf ym mis Chwefror 2021 ac mae'n adlewyrchu'r newid yn yr hierarchaeth cynllunio datblygu yn dilyn cyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Mae'r rhifyn diweddaraf hefyd yn pwysleisio y dylai'r system gynllunio gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, rhoi mwy o eglurhad o ran creu lleoedd a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy nodi cynlluniau fforddiadwy a arweinir gan dai o fewn CDLlau yn ogystal â sut y gall y system gynllunio ymateb i'r adferiad o'r pandemig Covid-19.

NODIADAU CYNGOR TECHNEGOL

3.3.12. Ers mabwysiadu'r CDLI, gwnaed y newidiadau canlynol i Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) yng Nghymru:

- NCT 1: Cafodd Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai eu dirymu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020.
- NCT 11: Sŵn. Cafwyd galwad am dystiolaeth a wnaed yn gynnar yn 2020 i gefnogi'r adolygiad o'r NCT i gynnwys ansawdd aer a seinwedd.

- NCT 14: Diweddarwyd Cynllunio Arfordirol yn ddiweddar, ac mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu.
- NCT 15: Diweddarwyd Datblygu a Pherygl Llifogydd yn ddiweddar, ac mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu. Bydd NCT 15 terfynol yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2021.
- NCT 20: Diweddarwyd Cynllunio a'r Gymraeg ym mis Hydref 2017.

---

#### LLAWLYFR Y CYNLLUNIAU DATBLYGU (RHIFYN 3) (MAWRTH 2020)

3.3.13. Mae Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu (LICD) yn ddogfen gyfeirio ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am, neu'n cyfrannu at, baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi, monitro a diwygio cynllun datblygu, wedi'u hategu gan dystiolaeth gadarn i sicrhau bod Cynlluniau'n effeithiol, yn cael eu cyflawni ac yn cyfrannu at greu lleoedd, fel y diffinnir mewn polisi cenedlaethol a nodir yn PCC.

3.3.14. Ysgrifennwyd y LICD diwygiedig yng nghyd-destun polisi cenedlaethol cyfredol a deddfwriaeth, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Rheoliadau cysylltiedig (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015)). Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r LICD yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod arferion gorau a newidiadau polisi yn cael eu hymgorffori yn y ddogfen.

---

#### POLISI ADNODDAU NATURIOL

3.3.15. Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Bolisi Adnoddau Naturiol (PAN) ym mis Awst 2017. Ffocws y PAN yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni'r nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.3.16. Mae'r PAN yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol: darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, a mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar le. Mae'r PAN yn datgan y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried eu datganiad ardal perthnasol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a dylid ei ystyried drwy'r broses adolygu.

---

#### LLWYBR NEWYDD: STRATEGAETH DRAFNIDIAETH CYMRU 2021

3.3.17. Cyhoeddwyd 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021' ym mis Mawrth 2021 ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth yng Nghymru. Nod canolog y strategaeth yw lleihau'r effaith y mae trafndiaeth yn ei chael ar newid yn yr hinsawdd, gan osod targed i 45% o'r holl deithiau yng Nghymru gael eu cyflawni'n gynaliadwy erbyn 2040.

3.3.18. Y brif weledigaeth yw "system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon" a'r flaenoriaeth yw "mynd ati'n weithredol i anelu at symud i ffwrdd o ddefnydd ceir preifat i ddulliau trafndiaeth mwy gynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau."

3.3.19. Y tair prif flaenoriaeth yn y Strategaeth yw:

- Dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio – a fydd yn golygu cynnydd mewn gwasanaethau lleol

- Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafndiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon
  - Annog pobl i wneud y newid i opsiynau trafndiaeth mwy cynaliadwy drwy wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy fforddiadwy a dibynadwy
- 3.3.20. Cefnogir y strategaeth gan raglen fuddsoddi 5 mlynedd i'w nodi mewn Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafndiaeth (CCCT) a fydd yn nodi'r ymyriadau trafndiaeth penodol sydd i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, bydd y Strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Rhanbarthol i oruchwylio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol sy'n cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol a Chynlluniau Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg.

---

## CYNLLUN MOROL CENEDLAETHOL CYMRU

- 3.3.21. Mabwysiadwyd CMCC cyntaf Llywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2019 ac mae'n nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer ac mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy ar 32,000km<sup>2</sup> o fôr a 2,120km o arfordir o gwmpas Cymru a gwmpesir gan y cynllun. Mae CMCC yn cyflwyno barn 20 mlynedd ac yn cwmpasu ardal y glannau yn y cynllun o benllanw'r gwanwyn hyd at 12 môr-filltir ac ardal alltraeth y cynllun y tu hwnt i 12 môr-filltir.
- 3.3.22. Amcan cyffredinol CMCC yw cefnogi datblygiad cynaliadwy ardal forol Cymru drwy gyfrannu ar draws nodau lles Cymru, cefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy wneud penderfyniadau a thrwy ystyried effeithiau cronol pob defnydd o'r amgylchedd morol.
- 3.3.23. Mae'r CMCC yn cynnwys polisïau ar ystod eang o sectorau gan gynnwys agregau, dyframaeth, amddiffyn, carthu a gwaredu, ynni (carbon isel ac olew a nwy), pysgodfeydd, porthladdoedd a llongau, ceblau o dan y môr, dŵr wyneb, trin a gwaredu gwastraff a thwristiaeth a hamdden.

---

## FFYNIANT I BAWB: CYMRU CARBON ISEL (MAWRTH 2019)

- 3.3.24. Mae'r Cynllun hwn yn nodi dull Llywodraeth Cymru o leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision ehangach mwyaf posibl i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n nodi polisïau a chynigion sy'n ceisio lleihau allyriadau'n uniongyrchol a chefnogi twf yr economi carbon isel. O berthnasedd i gynllunio mae targedau a pholisïau a gyflwynir mewn perthynas ag:
- Ynni
  - Trafndiaeth
  - Adeiladau
  - Diwydiant
  - Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth
  - Amaethyddiaeth a
  - Rheoli Gwastraff.

---

## ADEILADU LLEOEDD GWELL: Y SYSTEM GYNLLUNIO YN SICRHOU DYFODOL CADARN A DISGLEIRIACH (GORFFENNAF 2020)

- 3.3.25. Mae'r canllaw hwn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu gyda'r cyfnod o adfer yn dilyn argyfwng y pandemig Covid-19. Mae'n rhoi lle canolog i'r system gynllunio wrth ystyried materion amgylcheddol adeiledig a naturiol sydd wedi codi o'r pandemig, gan gyfeirio at bolisïau ac offer cynllunio allweddol yn PCC y dyldid eu defnyddio i helpu gyda'r adferiad o'r pandemig yng Nghymru.



3.3.26. Mae'r canllaw'n ceisio cloi'r manteision sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r pandemig. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy adeiladu ar y dull Creu Lleoedd a nodir yn PCC a nodi'r polisïau a'r dulliau cynllunio presennol allweddol y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae'n nodi na ddylai adferiad economaidd fod ar draul Creu Lleoedd, iechyd a lles ac ymateb y systemau cynllunio i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r canllaw felly'n hyrwyddo adferiad sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n cael ei arwain gan yr amgylchedd.

3.3.27. Mae'r Canllaw'n nodi 8 maes a ddylai fod yn ganolbwynt, sef:

- Aros yn lleol: creu cymdogaethau
- Teithio llesol: ymarfer corff ac ailddarganfod dulliau cludiant
- Adfywio canol ein trefi
- Lleoedd digidol - achubiaeth y cyfnod clo
- Arferion gwaith sy'n newid: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
- Ail-ddefro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a gwydnwch ecolegol
- Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a lles

---

#### Y STRATEGAETH GENEDLAETHOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL YNG NGHYMRU

3.3.28. Yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010), mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu ei hail strategaeth genedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (RhPLIEA) (Hydref 2020). Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu rheoli'r risg ac yn gosod amcanion a mesurau'r holl bartneriaid am y deng mlynedd nesaf. Bydd angen i CDLlau Newydd gydnabod y risg a darparu fframwaith polisi sy'n ceisio atal amlygiad i risg a fydd yn cael ei lywio gan Fap Llifogydd arfaethedig Cymru.

#### 3.4. Y CYD-DESTUN RHANBARTHOL

---

##### CYNLLUNIAU DATBLYGU STRATEGOL (CDS)

3.4.1. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd CDSau yn nodi'r fframwaith rhanbarthol ar gyfer cynllunio tai, datblygu economaidd a chyflogaeth yn strategol, dynodiadau lleiniau gwyrdd a thrafnidiaeth. Rhagwelir y bydd Bro Morgannwg yn rhan o CDS sydd wedi'i alinio ag Ardal De-ddwyrain Cymru a ddiffinnir yng Nghymru'r Dyfodol 2040. Bydd CDLlau yn parhau i fod â rôl sylfaenol yn y system a arweinir gan y Cynllun, gan lywio ac ategu nodau ac amcanion CDSau.

3.4.2. Gosodwyd y Rheoliadau sy'n llywodraethu cwmpas, cynnwys a gweithdrefnau ar gyfer paratoi CDSau ar 22 Mawrth 2021 a byddant yn dod i rym ar 28 Chwefror 2022, y dyddiad pan ddaw'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sy'n gyfrifol am gynhyrchu CDS yn gwbl weithredol.

---

##### PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD A'R FARGEN DDINESIG

3.4.3. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn cynnwys deg awdurdod lleol ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg. Ym mis Mawrth 2017, cadarnhawyd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) yn ffurfiol gydag amcan allweddol i hybu twf economaidd yn y rhanbarth, gwella cysylltiadau trafniadaeth, cynyddu sgiliau, creu cyfleoedd cyflogaeth a chefnogi twf busnes. Mae'r cynigion dilynol ar gyfer buddsoddi yn gyfle sylweddol i Fro Morgannwg a'r rhanbarth.

3.4.4. Mae hyn yn cynnwys:

- Buddsoddiad o £1.2 biliwn yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy Gronfa Fuddsoddi 20 mlynedd sy'n cynnwys £738 miliwn ar gyfer dylunio, darparu a gweithredu Metro De Cymru a Chronfa Cabinet Rhanbarthol gwerth £495 miliwn
- Creu Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol i gydlynu cynllunio a buddsoddi trafndiaeth mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Datblygu galluedd Rhaglenni Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.
- Creu Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Bydd y BDdPRC a Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyd-ddylunio cymorth cyflogaeth o 2017 i bobl â chyflwr iechyd neu anabledd a/neu sy'n hirdymor ddi-waith.
- Sefydlir Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau bod un llais i fusnesau weithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol.
- Mae Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwmo i ddull partneriaeth newydd o ddatblygu tai ac adfywio. Bydd hyn yn sicrhau y darperir cymunedau cynaliadwy, drwy ddefnyddio ac aildefnyddio eiddo a safleoedd.

3.4.5. Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn cymeradwyo'r pum mlynedd nesaf o gyllid ar gyfer P-RC. O ganlyniad, rhoddir ystyriaeth briodol i gynnydd BDdPRC ac unrhyw oblygiadau i'r CDLI Newydd mewn AMBau dilynol lle y bo'n briodol.

---

## DATGANIADAU ARDAL CYFOETH NATURIOL CYMRU

3.4.6. Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi Datganiadau Ardal o dan adran 11 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), 2016. Datblygir y Datganiadau Ardal hyn er mwyn helpu i hwyluso gweithrediad y Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol ac adeiladu ar y dystiolaeth a nodir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN). Cyhoeddwyd Datganiad Ardal Canol De Cymru (DACDC) ar 1 Ebrill 2020 ac mae'n cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

3.4.7. Mae'r Datganiadau Ardal yn defnyddio dull graddfa tirwedd i ystyried ble a pham rydym am adeiladu gwydnwch ecosystemau o ran ardaloedd tirwedd arbennig ac unigryw Deddwyrain Cymru. Mae DACDC wedi'i gynhyrchu i lywio cynllunio ac mae'n helpu rhanddeiliaid i ystyried ffyrdd gwahanol o gydweithio i fodloni'r 5 thema strategol o adeiladu ecosystemau gwydn, cysylltu pobl â natur, gweithio gyda dŵr, gwella ein hiechyd a gwella ansawdd ein haer.

3.4.8. Mae'n ofynnol i'r CDLI Newydd ystyried y DACDC hwn a bod yn gyson ag ef, a chaiff hyn ei farnu yn erbyn prawf cadernid adeg ei archwilio.

## 3.5. AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL CYFAGOS

3.5.1. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau cyfagos Bro Morgannwg i gyd ar wahanol gamau o'u hadolygiadau CDLI perthnasol, fel y nodir isod:

- Mabwysiadodd **Cyngor Dinas Caerdydd** ei CDLI ar 28 Ionawr 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2006-2026. Wedi pedwaredd flwyddyn ei fabwysiadu, dechreuodd Cyngor Dinas Caerdydd adolygu ei CDLI. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y weledigaeth, y materion a'r amcanion drafft ac adroddiad cwmpasu drafft yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig rhwng 28 Mai a 23 Gorffennaf 2021.

- Mabwysiadodd **Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr** ei CDLI ar 18 Medi 2013 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2006-2021. Dechreuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr adolygiad ffurfiol o'i CDLI yn 2017. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y CDLI Newydd ar Adnau rhwng 1 Mehefin a 27 Gorffennaf 2021.
- Mabwysiadodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** ei CDLI ar 2 Mawrth 2011 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2006-2021. Ystyriwyd bod angen Adolygiad ffurfiol o'r CDLI yn gynnar yn 2019 ac fe'i cynhaliwyd o fis Mehefin 2019, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet. Cymeradwywyd Adroddiad Adolygu a Chytundeb Cyflawni terfynol y CDLI gan Lywodraeth Cymru ar 14 Medi 2020. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2021.

### 3.6. CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU CYNGOR BRO MORGANNWG

#### CYNLLUN LLES LLEOL BRO MORGANNWG

- 3.6.1. O dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd BGC y Fro ei Asesiad Lles. Daeth yr Asesiad â chyfoeth o wybodaeth ynghyd o ystod eang o ffynonellau ac mae'n rhoi darlun cynhwysfawr o les ym Mro Morgannwg ac yn hysbysu'r Cynllun Lles (CLI).
- 3.6.2. Mabwysiadwyd y CLI ar 18 Ebrill 2018 ac mae'n nodi sut y gosodwyd yr Amcanion Lles, yn cynnwys camau gweithredu byrdymor a hirdymor ac yn nodi sut mae'r Cynllun yn cydfynd â chynlluniau a strategaethau partneriaeth eraill a'r canlyniadau y mae'r BGC am eu cyflawni. Amcanion Lles y BGC yw:
- Galluogi pobl i gymryd rhan a chyfranogi yn eu cymunedau lleol a llywio gwasanaethau lleol
  - Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd
  - Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant
  - Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.
- 3.6.3. Mae camau gweithredu'r CLI yn adlewyrchu lle mae partneriaid yn credu y gall eu cydweithredu ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth gyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Adran 5 o'r adroddiad adolygu hwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r CLI a'i berthynas ag adolygiad y CDLI.

#### CYNLLUN CORFFORAETHOL BRO MORGANNWG 2020-2025

- 3.6.4. Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg yw dogfen strategol allweddol y Cyngor ac mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer y gwahanol weithgareddau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw. Mae'n ceisio cyflawni ystod eang o ganlyniadau a fesurir yn erbyn 4 amcan lles y cynllun:
- Gweithio gyda, a thros ein cymunedau
  - Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
  - Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
  - Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd
- 3.6.5. Ar gyfer pob amcan, mae'r cynllun yn nodi'r camau a gymerir dros y 5 mlynedd ac yn cynnwys agweddau sy'n berthnasol i gynllunio defnydd tir a fydd yn dylanwadu ar ac yn cyfarwyddo ffocws y CDLI Newydd, gan gynnwys:
- gwella lles, gan hyrwyddo trafnidiaeth llesol a chynaliadwy,

- cefnogi twf economaidd drwy weithio fel rhan o'r Brifddinas-Ranbarth, adfywio, gwella seilwaith a chefnogi canol trefi, twristiaeth a diwydiant,
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da,
- lleihau allyriadau carbon a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd,
- sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy, lliniaru eu heffaith a'u hintegreiddio â chymunedau lleol gan ddarparu'r seilwaith angenrheidiol,
- diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig naturiol a threftadaeth ddiwylliannol,
- lleihau llygredd, rheoli gwastraff yn effeithiol a lleihau effaith llifogydd.

---

#### PROSIECT SERO - CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD CYNGOR BRO MORGANNWG 2021-2030

- 3.6.6. Ym mis Chwefror 2020 llofnododd y Cyngor Siarter Argyfwng Hinsawdd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro ac mae hwn yn nodi ymrwymiad cyffredin y BGC i arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ei effaith ar y newid yn yr hinsawdd.
- 3.6.7. Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero-net erbyn 2030 ac annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at rôl y CDLI mabwysiedig yn cyfrannu at yr ymrwymiad newid hinsawdd, er enghraifft, sicrhau cyfraniadau cynllunio tuag at gynlluniau trafndiaeth gynaliadwy a thrwy weithredu polisïau sy'n annog ynni adnewyddadwy.
- 3.6.8. Mae'r adolygiad CDLI yn rhoi cyfle i'r Cyngor archwilio ffyrdd o ddatblygu ei ymrwymadau newid hinsawdd i gyfrannu at y broses o wneud Cymru'n genedl carbon-isel.

---

#### STRATEGAETH TAI POBL HÛN BRO MORGANNWG

- 3.6.9. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratoi strategaeth tai pobl hÛn. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn sicrhau'r canlyniadau tai gorau i bob person hÛn ym Mro Morgannwg ac yn ystyried anghenion tai a gofal preswylwyr hÛn yn y dyfodol.
- 3.6.10. Mae PCC yn tynnu sylw at y ffaith y dylai CDLlau geisio mynd i'r afael â gwahanol anghenion tai cymunedau a sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer amrywiaeth o safleoedd sy'n addas ar gyfer yr ystod lawn o fathau o dai, gan gynnwys gofynion tai pobl hÛn a phobl ag anableddau (paragraff 4.2.12). Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn galluogi'r Cyngor i ystyried canfyddiadau'r strategaeth tai pobl hÛn wrth ddatblygu ei bolisïau i gyfrannu at fynd i'r afael ag anghenion tai penodol y gymuned.

---

#### ASESIAD O FARCHNAD DAI LEOL BRO MORGANNWG

- 3.6.11. Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2019) (AFDL) yn darparu dadansoddiad manwl o'r amgylchedd tai lleol o fewn yr awdurdod gyda'r diben o nodi anghenion tai fforddiadwy blynyddol yr ardal yn ôl deiliadaeth a maint anheddau dros y 5 mlynedd nesaf.
- 3.6.12. Mae AFDLau yn rhan annatod o sylfaen dystiolaeth y CDLI ar gyfer llywio'r strategaeth CDLI, gosod targedau tai fforddiadwy a datblygu polisïau ar gyfer sicrhau tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio.
- 3.6.13. Mae'r asesiad diweddaraf yn dangos, er gwaethaf llwyddiant y Cyngor o ran cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fod yr angen am dai

fforddiadwy yn yr awdurdod yn parhau i dyfu ac wedi cynyddu ers cyhoeddi'r AFDL blaenorol yn 2017. Mae adroddiad 2019 yn nodi gofyniad tai fforddiadwy blynyddol o 890 o anheddau, cynnydd amlwg ar yr angen blynyddol o 576 o anheddau a nodwyd yn flaenorol yn AFDL y Cyngor yn 2017.

- 3.6.14. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried ei ddulliau polisi o gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy, gan gynnwys adolygiad o drothwyon safle presennol y CDLI ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy, yn ogystal ag archwilio sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy megis nodi cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy fel yr argymhellir yn PCC.

---

## STRATEGAETH SEILWAITH GWYRDD BRO MORGANNWG

- 3.6.15. Mae PCC yn tynnu sylw at rôl sylfaenol seilwaith gwyrdd wrth lunio lleoedd a gwella lles, drwy ddarparu nifer o swyddogaethau a manteision ar gyfer cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth drwy gynhyrchu Aseidiadau Seilwaith Gwyrdd (ASGau) cyfredol ac y dylid eu hystyried yn gynnar wrth baratoi cynlluniau ac yn y broses rheoli datblygu.
- 3.6.16. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Cynllun Seilwaith Gwyrdd sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a darparu seilwaith gwyrdd dros y cyfnod rhwng 2022 a 2032. Cynhaliwyd archwiliad o'r holl fannau gwyrdd ym Mro Morgannwg, sy'n cynrychioli 41,752.34ha o fannau gwyrdd/glas o fewn ffin yr awdurdod. Ym mis Mehefin 2021, rhyddhaodd CNC nodyn canllaw (GN042) sy'n amlinellu setiau data perthnasol CNC ac yn esbonio sut y gellir eu defnyddio i ffurfio rhan o ASG. Mae'r archwiliad yn unol â chanllawiau CNC.
- 3.6.17. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn rhan o weithgor i gynhyrchu Offeryn Natur ledled y DU i asesu enillion net amgylcheddol a fydd yn helpu i lywio'r ASG. Cynhyrchwyd offeryn prototeip ac mae'r Cyngor yn cynnal 2 astudiaeth achos i profi'r offeryn cyn ei ddefnyddio'n ehangach o fewn y broses asesu. Rhagwelir y bydd yr offeryn hwn yn cael ei ddefnyddio i werthuso'r asedau seilwaith gwyrdd a nodwyd ym Mro Morgannwg a fydd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd cyffredinol ac yn ffurfio prif ran yr ASG. Bydd y broses Asesu yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:
- Pa elfennau o seilwaith gwyrdd y mae'n rhaid eu diogelu?
  - Pa elfennau y dylid eu newid neu eu gwella o ran cymeriad?
  - Ble mae angen creu elfennau newydd a pha fath y dylen nhw fod?
  - Ble y dylai'r gwaith o ddatblygu seilwaith llwyd gael ei integreiddio â seilwaith gwyrdd?
  - Pa elfennau y dylid eu cysylltu â'i gilydd?
  - Pa elfennau y gellir eu cyfnewid o bosibl i sicrhau enillion amgylcheddol net ar sail seilwaith ac yn ansoddol?
- 3.6.18. Bydd asesu'r asedau gwyrdd a glas a nodwyd yn llywio gweledigaeth a strategaeth y Cynllun Seilwaith Gwyrdd. Fodd bynnag, yn gyffredinol ar ôl i'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd gael ei fabwysiadu, bydd yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn cynllunio ac yn rheoli seilwaith gwyrdd i fynd i'r afael â materion fel gwella'r ddarpariaeth o fannau agored er budd iechyd a lles y preswlydd, mynd i'r afael â darnio cynefinoedd a bioamrywiaeth drwy ddarparu coridorau cynefin a helpu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd drwy wyrddio mannau trefol ac ymgorffori ffyrdd o reoli adnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy.

---

## ARGYFWNG NATUR CYNGOR BRO MORGANNWG

- 3.6.19. Ar 26 Gorffennaf 2021, penderfynodd Cyngor Bro Morgannwg, mewn ymateb i'r 'Adroddiad Arbennig ar Gynhesu Byd-eang o 1.5°C' gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)' (Hydref 2018), ddatgan argyfwng natur i gydnabod y cysylltiad anorfod rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae adroddiad yr IPCC yn tynnu sylw at nifer o effeithiau newid hinsawdd y gellid eu hosgoi drwy gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C gan gynnwys yr effeithiau ar ecosystemau ac iechyd a lles pobl.
- 3.6.20. Felly, mae'r Cyngor wedi penderfynu datgan argyfwng natur i osod bioamrywiaeth ochr yn ochr â newid yn yr hinsawdd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ym Mro Morgannwg ac i barhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y sir, y rhanbarth ac yn genedlaethol i ddatblygu a gweithredu arfer gorau a all ddiogelu bioamrywiaeth Cymru.

---

## STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF BRO MORGANNWG

- 3.6.21. Mae'r Strategaeth Gwastraff ar gyfer Bro Morgannwg (2018-2025) yn nodi amcanion a chynlluniau gweithredu'r Cyngor o ran cyrraedd targedau cenedlaethol i leihau gwastraff. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n paratoi strategaeth rheoli gwastraff ddiwygiedig a fydd yn llywio'r adolygiad o bolisiâu gwastraff y CDLI ac unrhyw oblygiadau o ran defnydd tir sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth.

---

## CYNLLUN RHEOLI CYRCHFANNAU BRO MORGANNWG 2018-2020

- 3.6.22. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) yn ceisio sicrhau bod Bro Morgannwg yn parhau i ffynnu fel cyrchfan lwyddiannus i ymwelwyr yn y dyfodol ac yn parhau i gael y budd mwyaf posibl o'r economi ymwelwyr. Gweledigaeth gyffredinol y CRhC yw:

*“creu cyrchfan dwristiaeth fywiog a deniadol â delwedd gadarnhaol ar gyfer Bro Morgannwg gan fanteisio ar yr Arfordir Treftadaeth a'i hagosrwydd i Gaerdydd, gan annog gwariant uwch ac incwm lleol drwy ddatblygu cynaliadwy a chyfleusterau o ansawdd i gyfoethogi profiad ymwelwyr a thrigolion.”*

- 3.6.23. Mae'r CRhC yn cynnwys sawl uchelgais i ategu'r weledigaeth, gan gynnwys yr uchelgais i'r Fro “fod ag enw da am wyliau gwledig; dewis arall ar gyfer crwydro prifddinas Cymru, gan gynnig arfordir anhygoel a chefn gwlad prydferth.”
- 3.6.24. Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu'r strategaeth dwristiaeth bresennol ac, ar ôl cyhoeddi'r strategaeth newydd, bydd yn llywio'r adolygiad o'r CDLI i sicrhau bod dyheadau twristiaeth y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg yn cael eu hadlewyrchu.

---

## FFRAMWAITH CANOL TREFI (FFCT) BRO MORGANNWG

- 3.6.25. Nod y FfCT yw llywio dyfodol y pum prif ganolfan fanwerthu yn ardal yr awdurdod, sef Heol Holltwn, y Barri, Stryd Fawr a Broad Street, y Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth. Mae'r FfCT yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r canolfannau ac yn sefydlu gweledigaeth a chyfres o flaenoriaethau strategol i helpu i fynd i'r afael â'r materion a helpu i gefnogi eu datblygiad fel cyrchfannau deniadol a llwyddiannus sy'n cael eu mwynhau gan breswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.
- 3.6.26. Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer pob canolfan gan y Cyngor i alluogi gweithrediad argymhellion y Fframwaith, a chyflawnwyd cynnydd sylweddol o ran y rhan fwyaf o'r

camau gweithredu. Mae cysylltiad agos rhwng gweithredu'r camau gweithredu a strategaethau a dogfennau eraill y Cyngor, megis y CDLI. Cynigir adolygiad o'r FfCT yn 2022 a fydd yn llywio'r adolygiad o'r CDLI ochr yn ochr ag asesiad o anghenion manwerthu, a fydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod y polisïau yn y Cynllun yn helpu i gefnogi canolfannau manwerthu presennol, yn enwedig yn yr adferiad ar ôl Covid-19, i sicrhau bod canolfannau manwerthu'r Fro yn gyrchfannau deniadol a hyfyw yn y dyfodol.

---

#### CYNLLUN TRAFNIDIAETH LLEOL BRO MORGANNWG 2015 - 2030

- 3.6.27. Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLI) y Cyngor yn ceisio nodi'r mesurau trafndiaeth gynaliadwy lleol sydd eu hangen i sicrhau bod Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau arfer da cyfredol. Mae'r CTLI yn nodi nifer o amcanion byrdymor hyd at 2020 ac yn cynnwys amcanion tymor canolig a thymor hwy hyd at 2030. Mae'r CTLI wedi'i lywio gan gynigion o fewn CDLI y Cyngor ac mae hefyd yn gyson ag amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- 3.6.28. Wrth nodi cynlluniau, mae'r CTLI yn chwilio am ffyrdd o sicrhau gwell amodau i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus ac annog newid mewn dewisiadau teithio, i ffwrdd o geir meddiannaeth sengl. Mae'r CTLI hefyd yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd traffig drwy sicrhau gwelliannau i'r coridorau priffyrdd strategol i gymudwyr y gallai fod angen iddynt deithio mewn car yn ogystal â darparu seilwaith gwell ar gyfer cludo nwyddau. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau diogelwch ffyrdd allweddol y Fro. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Caerdydd a bydd y CTLI yn llywio gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn y dyfodol.

---

#### BLAENGYNLLUN BIOAMRYWIAETH BRO MORGANNWG (2019)

- 3.6.29. Mae Blaengynllun Bioamrywiaeth (BGB) Bro Morgannwg yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella adnoddau naturiol i sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob maes gwasanaeth a'u bod yn themâu craidd wrth ddarparu gwasanaethau, gan ddod yn rhan annatod o'r prosesau gwneud penderfyniadau ledled y Cyngor.
- 3.6.30. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i ddangos sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn "ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau".
- 3.6.31. Mae rhan un o'r Blaengynllun yn nodi'r cefndir (gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol), heriau a chyfleoedd a'r camau gweithredu a'r targedau sydd i'w cyflawni i gyflawni'r nodau hyn.
- 3.6.32. Adroddir ar y camau gweithredu yn y BGB bob tair blynedd yn unol â gofynion statudol a chânt eu hadolygu a'u diweddarau ar ddiwedd pob cyfnod adrodd o 3 blynedd. Bydd yr adolygiad o'r BGB yn cyd-fynd ag un y CDLI ac felly bydd yn darparu tystiolaeth gefndirol allweddol ar gyfer y CDLI newydd ac yn llywio'r adolygiad o bolisïau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth o fewn y Cynllun.

## 4. NEWIDIADAU I'R SYLFAEN DYSTIOLAETH

### 4.1. AMCANESTYNIADAU POBLOGAETH AC AELWYDYDD LLYWODRAETH CYMRU

- 4.1.1. Diben yr adran hon yw dadansoddi goblygiadau'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddar ar gyfer cyfnod presennol y Cynllun. Byddai'r hyn y maent yn ei ddweud ar gyfer unrhyw gyfnod Cynllun estynedig yn fater ar gyfer unrhyw ddiwygiad i'r CDLI.
- 4.1.2. Cynhyrchir yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi syniad o faint ac oedran y boblogaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a set o dybiaethau o ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo yn y dyfodol. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig yn bennaf ar amcanestyniadau poblogaeth a chyfansoddiad a maint aelwydydd. O ganlyniad, maent yn rhoi syniad o'r galw am leoedd mewn aelwydydd yn y dyfodol ac nid ydynt yn rhagolygon o anheddau neu dai; yn hytrach maent yn cynnig syniad o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau a thybiaethau am dwf poblogaeth y dyfodol.
- 4.1.3. Gan fod amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol a thybiaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth, dim ond arwydd o'r hyn a allai ddigwydd yw'r amcanestyniadau os yw'r duedd a ddefnyddir yn y tybiaethau'n cael ei gwireddu. Nid yw amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau yn darparu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog na ffactorau economaidd-gymdeithasol ar gyfraddau ffurfio aelwydydd neu lefelau poblogaeth y dyfodol. Gan fod y broses newid demograffig yn gronnol, daw amcanestyniadau'n fwyfwy ansicr y pellach ymlaen y rhagwelant. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau'n gyflymach ac yn fwy difrifol nag eraill. Oherwydd maint y llif mudo i rai awdurdodau lleol, mae tybiaethau mudo yn fwy arwyddocaol na thybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, gall tybiaethau mudo gael effaith sylweddol ar rai ardaloedd yn yr hirdymor. Er mwyn helpu i gynnal rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd a mewnbynnu gwahanol dybiaethau i benderfynu sut maen nhw'n effeithio ar yr amcanestyniadau a'r cyflenwad tir tai dilynol, defnyddir Meddalwedd PopGroup. Mae Popgroup yn gyfres feddalwedd sy'n seiliedig ar daenlenni Excel a ddatblygwyd i ragweld rhagolygon demograffig. Mae teulu meddalwedd Popgroup yn rhagweld poblogaethau, aelwydydd a'r gweithlu ar gyfer ardaloedd a grwpiau cymdeithasol.
- 4.1.4. Cafodd y CDLI mabwysiedig ei lywio gan amcanestyniad amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd 2011 a ragwelai y byddai poblogaeth Bro Morgannwg yn 132,219 o bobl yn 2019 a 136,281 o bobl erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2026. Seiliwyd y CDLI ar Adnau ar amcanestyniadau 2008 a gwnaed diwygiadau i'r amcanestyniadau i adlewyrchu'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn diwygiedig ar gyfer 2009-2010 ym mis Mehefin 2010. Arweiniodd hyn at ddisgwyliad i'r boblogaeth gyrraedd tua 138,600 yn 2026. Cafodd amcanestyniadau 2008 eu diystyru yn dilyn y broses ymgynghori ar y Cynllun ar Adnau. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn ystod y broses ymgynghori, cynhyrchwyd Papur Cefndir Darpariaeth Tai (2015) a oedd yn derbyn amcanestyniadau amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd 2011 ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd fel man cychwyn ar gyfer Cyflenwad Tir Tai'r CDLI. Mae amcanestyniadau 2011 yn dechrau o sylfaen is na'r amcanestyniadau blaenorol yn 2008 gan fod y ffigurau hyn yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad, nid amcangyfrifon rhyng-gyfrifiad. Er y gallai dychwelyd i dueddiadau'r gorffennol (sy'n ymwneud â maint cyfartalog aelwydydd a mudo, er enghraifft) gael effaith sylweddol ar y boblogaeth wirioneddol a'r aelwydydd, mae hyn yn annhebygol o arwain at y lefelau a



ragwelwyd yn flaenorol o dan amcanestyniadau 2008 o ystyried y sylfaen is a ddarparwyd gan Gyfrifiad 2011.

- 4.1.5. Defnyddiodd y CDLI hefyd amcanestyniadau aelwydydd amrywiolyn mudo 10 mlynedd 2011 a ragwelai y byddai 53,620 o aelwydydd yn 2011 a 60,738 o aelwydydd erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2026. Byddai'r newid mewn aelwydydd rhwng 2011 a 2026 yn rhoi cyfrif am gynnydd o 7,118 o aelwydydd dros gyfnod y Cynllun, a oedd yn cyfateb i 7,399 o anheddau. Cafodd hyn ei lywio drwy roi cyfrif am nifer yr aelwydydd ag o leiaf un preswlydd arferol. Nododd cyfrifiad 2011 fod gan tua 96% o aelwydydd Bro Morgannwg o leiaf un preswlydd arferol. Defnyddiwyd y ffigur hwn ar y rhaglen PopGroup ar gyfer y gyfradd drosi sengl ar gyfer y cyfrifiad cyflenwad effaith ar gyfer amcanestyniadau Bro Morgannwg.
- 4.1.6. Cymharwyd y ffigur o 7,399 o ran gofyniad annedd â chymhareb drosi gymeradwy Llywodraeth Cymru o 1.04 o anheddau fesul aelwyd. Mae'r gymhareb drosi hon yn cynnwys cyfraddau eiddo gwag, tebygolrwydd yn y farchnad dai ac elfen o aelwydydd 'cudd'; fodd bynnag, mae'n gymhareb dybiaethol. Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gymhareb hon yn briodol i bennu gofyniad annedd; mae'n gadael i union werth y gymhareb hon gael ei phennu gan yr awdurdod cynllunio lleol yn seiliedig ar ei dystiolaeth leol. Mae cymhwysu cymhareb drosi Llywodraeth Cymru yn arwain at ofyniad annedd o 7,403 - gwahaniaeth o 4 annedd. Oherwydd y gwahaniaeth bach rhwng y ddwy fethodoleg, ystyriwyd bod y rhaglen PopGroup yn briodol i gadw'r amcanestyniadau'n gyson ag amcanestyniadau blaenorol a ddefnyddiwyd gan Fro Morgannwg (2006 a 2008).
- 4.1.7. Cynyddodd yr amcanestyniadau aelwydydd gan 1,540 o aelwydydd i gyfrif am y twf economaidd posibl arfaethedig a amlinellir yn y CDLI, sy'n cyfateb i 1,602 o anheddau, gan ddefnyddio'r gymhareb trosi anheddau safonol (cymhareb Llywodraeth Cymru: 1.04). Amlinellir y cyfrifiadau hyn ym Mhapur Cefndir Darpariaeth Tai y Cyngor (2015).
- 4.1.8. Mae Tabl 2 yn amlinellu'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn y Papur Cefndir Darpariaeth Tai:

**Tabl 2: Gofyniad Preswyl y CDLI ar Adnau**

Gofyniad	Aneddiadau
Amcanestyniad Poblogaeth ac Aelwydydd ar sail mudo cyfartalog 10 mlynedd 2011	7,399
Effaith bosibl ar dwf economaidd – 1,540 o aelwydydd, wedi'u lluosu â'r gymhareb trosi aelwydydd i anheddau o 1.04	1,602
Lwfans i gynnal darpariaeth tai fforddiadwy ac i adlewyrchu rôl ranbarthol	499
Gofyniad Tai	9,500
Lwfans hyblygrwydd (10% o'r gofyniad tai)	950
Cyfanswm gofyniad preswyl	10,450

- 4.1.9. Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad CDLI, holodd yr Arolygydd ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy. Mae Sesiynau Gwrandawriad 2 a 3, Pwynt Gweithredu 2 yn amlinellu bod y ffigur o 499 yn seiliedig ar y lefel uchel o angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) yn erbyn cyflawnadwyedd, a amlinellwyd yn flaenorol yn y Cynllun ar Adnau (2013), ond ni roddwyd esboniad am yr union nifer. O ganlyniad, daeth y Cyngor i'r casgliad y byddai ôl-groniad o flwyddyn (459 o anheddau) yn ddarpariaeth ddigonol fel 'Darpariaeth Tai Fforddiadwy' o fewn y gofyniad tai cyffredinol o ystyried yr angen aciwt am dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg. Ystyriwyd bod hyn yn cynrychioli

swm priodol y dangoswyd ym mhob rhan o dystiolaeth y Cyngor ei fod yn gyflawnadwy o fewn Cyfnod y Cynllun. Byddai cynyddu'r 'Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy' i ôl-groniad o 2 flynedd (918 o anheddau) neu fwy yn amlwg yn cynyddu argaeledd cyffredinol tai (yn unol ag Amcan 7 y CDLI) ond, o ystyried y targed uchelgeisiol ar gyfer darparu tai yn y Cynllun eisoes, ystyriwyd y gallai hyn achosi problemau cyflenwi ac y byddai angen dyraniadau tai pellach, yn fwyaf tebygol ar dir maes glas, a allai wrthdaro ag amcanion amgylcheddol y Cynllun. Felly, roedd y Cyngor o'r farn bod y ddarpariaeth o 459 yn briodol ac yn gyfiawn yng nghyd-destun CDLI Bro Morgannwg. Arweiniodd hyn at y newidiadau canlynol i'r gofyniad annedd:

**Tabl 3: Gofyniad Preswyl CDLI Mabwysiedig**

Gofyniad	Aneddiadau
Amcanestyniad cyfartalog 10 mlynedd ar sail 2011	7,399
Effaith bosibl ar dwf economaidd – 1,540 o aelwydydd, wedi'u lluosu â'r gymhareb trosi aelwydydd i anheddau o 1.04	1,602
Lwfans i gynnal darpariaeth tai fforddiadwy ac i adlewyrchu rôl ranbarthol	459
Gofyniad Tai	9,460
Lwfans hyblygrwydd (10% o'r gofyniad tai)	946
Cyfanswm gofyniad preswyl	10,406 (+ 2 annedd) *

*\*Ychwanegwyd dau annedd ychwanegol at y gofyniad annedd cyffredinol gan arwain at ofyniad CDLI mabwysiedig o 10,408. Gwnaed hyn i adlewyrchu'r cyflenwad tir sydd ar gael ym Mro Morgannwg y rhoddwyd cyfrif amdano yn y Cynllun o dan Bolisi MG1 paragraff 6.9 ac yn seiliedig ar y Papur Cefndir Trywydd Cyflenwad Tir Tai (2016).*

4.1.10. Ers mabwysiadu'r CDLI, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau amcanestyniadau poblogaeth 2018. Mae'r amcanestyniadau'n rhoi syniad o faint a strwythur oedran posibl y boblogaeth yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2018 i 2043. Yn yr un modd, cyhoeddwyd amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol 2018 ar 27 Chwefror 2020. Mae'r amcanestyniadau'n rhoi syniad o nifer yr aelwydydd a'u cyfansoddiad yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r prif amrywiolyn ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth 2018 ar gyfer Bro Morgannwg yn nodi 134,749 o bobl yn 2021 a rhagwelir y bydd y ffigur yn cynyddu i 144,536 erbyn diwedd cyfnod y CDLI Newydd (2036). Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn llywio amcanestyniadau aelwydydd, ac mae'r prif amrywiolyn yn rhagweld y bydd 58,816 o aelwydydd yn 2021 a 65,030 yn 2036. Mae hyn yn gynydd o 6,214 o aelwydydd yn ystod cyfnod diwygiedig y cynllun.


4.1.11. Cynhaliwyd rhagolygon cychwynnol mewn amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd gan ddefnyddio PopGroup i ddeall sut mae newidiadau yn y data sylfaenol fel yr amlinellir uchod yn cymharu â'r amcanestyniadau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn y CDLI. Dangosir yr amcanestyniadau a ddefnyddiwyd yn y CDLI ar Adnau (yn seiliedig ar 2008), y CDLI mabwysiedig (yn seiliedig ar 2011) a'r amcanestyniadau diweddaraf (yn seiliedig ar 2018) yn y tabl isod:

**Tabl 4: Cymharu Amcanestyniadau**

Crynodeb o Amcanestyniadau yn ôl Math	Blwyddyn	Seiliedig ar 2008 - Opsiwn 1	Seiliedig ar Fudo Cyfartalog 10 mlynedd LIC 2011	Seiliedig ar 2018 - Prif Amr. LIC
	2011	125,804	126,679	Dd/B
	2021	134,540	133,490	134,749
	2026	138,686	136,281	138,713
Poblogaeth rhwng 2021-2026 =		4,145	2,791	3,964
% Newid		2.99%	2.05%	2.86%
	2011	54,454	53,620	Dd/B
	2021	61,094	58,566	58,816
	2026	63,935	60,738	61,316
Aelwydydd sydd eu hangen rhwng 2021-2026 =		2,840	2,172	2,500
% Newid	2011-2026	4.4%	3.6%	4.1%
	2011	57,152	55,738	Dd/B
	2026	67,102	63,138	I'w gadarnhau
Anheddau sy'n ofynnol rhwng 2011 - 2026 =		9,950	7,399	Dd/B


4.1.12. Mae Ffigur 2 isod yn cymharu'r prif amcanestyniadau poblogaeth a ddefnyddir i lywio'r CDLI mabwysiedig a'r amcanestyniadau a fydd yn helpu i lywio cynllun diwygiedig:

Ffigur 2: Cymharu Twf Poblogaeth yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn



4.1.13. Mae'r graff uchod yn dangos bod amcanestyniadau mudo cyfartalog 10 mlynedd 2011 yn dangos twf llai dros gyfnod y cynllun o gymharu â'r amcanestyniadau eraill. Yn ddiddorol, mae amcanestyniadau 2008 a 2018 yn dangos cynnydd tebyg yn y boblogaeth yng nghyfnod y cynllun. Priodolir hyn i'r gwahaniaeth rhwng y mudo cyfartalog 10 mlynedd a oedd yn cynnwys cyfnod o dwf arafach tra bod y prif amcanestyniadau a lywiodd amcanestyniadau 2008 a 2018 yn cyfrif am 5 mlynedd o dueddiadau'r gorffennol. Mae'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn (ACB) yn dangos darlun mwy cyfnewidiol o dwf y boblogaeth. Cyfrifir yr amcangyfrifon poblogaeth drwy gyfuno data cofrestru genedigaethau a marwolaethau ynghyd ag amcangyfrifon mudo rhyngwladol a llifau mudo mewnol (o fewn y DU) i gyfrifo amcangyfrifon ar gyfer poblogaeth breswyl arferol pob ardal ar 30 Mehefin bob blwyddyn. Mae hyn yn dangos twf cynyddol yn y boblogaeth ar gyfer 2019 a 2020 sy'n gwyro oddi wrth y duedd a ragwelwyd yn amcanestyniadau 2018. Er bod amcanestyniadau 2018 yn dangos bod y boblogaeth yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn, a hynny'n fwy na'r hyn a awgrymwyd yn nata 2011, mae'n bwysig nodi cyfradd y newid i ddeall sut y bydd hyn yn effeithio ar y gofyniad annedd posibl mewn CDLI diwygiedig. Mae Ffigur 3 isod yn dangos cyfradd y newid ar gyfer y gwahanol ragfynegiadau poblogaeth:


Ffigur 3: Cymharu Twf Poblogaeth yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn



4.1.14. Mae cyfradd y newid yn y boblogaeth ar gyfer amcanestyniadau 2018 yn dangos gostyngiad sylweddol yn y twf yn y boblogaeth o ACB 2018 sy'n parhau i ostwng dros gyfnod diwygiedig y CDLI tan 2036 ac yn dechrau adlewyrchu cyfradd y newid yn y boblogaeth a ragwelwyd gan amcanestyniadau 2011. Mae'r rhagfynegiadau ACB yn dangos cyfradd twf gyflym yn y boblogaeth o 2015 tan 2017 pan mae'r twf yn arafu ychydig tan 2019 ac yna'n cynyddu eto yn 2020.


4.1.15. Mae'r amcanestyniadau ac amcangyfrifon poblogaeth yn llywio amcanestyniadau aelwydydd yn ogystal â chyfansoddiad a maint aelwydydd. Mae Ffigur 4 yn dangos cymhariaeth rhwng y gwahanol amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar yr amcanestyniadau poblogaeth a nodir uchod:

Ffigur 4: Cymharu Twf Aelwydydd yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn



4.1.16. Mae'r amcanestyniad ACB yn fwy adlewyrchol o'r boblogaeth, ond mae amcanestyniadau 2011 a 2018 yn ymddangos yn debycach mewn perthynas ag aelwydydd. Mae amcanestyniadau 2008 yn dangos cynnydd mwy mewn aelwydydd nag amrywiolion eraill. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r amcanestyniadau poblogaeth, mae cyfradd y newid mewn aelwydydd yn ffactor pwysig. Mae'r graff yn ffigur 5 isod yn dangos cyfradd y newid ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd:

Ffigur 5: Cymharu Cyfradd Newid Aelwydydd yn ôl Blwyddyn ac Amrywiolyn



4.1.17. Mae cyfradd y newid mewn aelwydydd yn adlewyrchu cyfradd newid y boblogaeth. Fodd bynnag, mae amcanestyniad 2018 yn adlewyrchu cyfradd newid amcanestyniadau 2011 sy'n parhau i mewn i gyfnod y cynllun diwygiedig hyd at 2036.

4.1.18. Mae'r ffigurau uchod yn dangos gwahaniaeth rhwng yr amcanestyniadau a ddefnyddir i lywio'r CDLI mabwysiedig ac yn dangos yn glir y bydd angen ailystyried y gofyniad annedd o fewn y CDLI mabwysiedig fel rhan o broses Adolygu'r CDLI ar gyfer cyfnod y cynllun newydd. Nid yw'r gofyniad annedd a ragwelir wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Adolygu gan y bydd angen i hyn gynnwys mewnbynnau eraill megis strategaethau a pholisïau lleol a fydd yn llywio'r strategaeth a ffefrir ar gyfer y CDLI Diwygiedig a'r papurau cefndir perthnasol. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf yn dangos y byddai gofyniad annedd yn y CDLI newydd yn seiliedig ar y twf parhaus o fewn cyfnod nesaf y cynllun (2021 – 2036). Dylid nodi, er mai amcanestyniadau 2018 yw'r data diweddaraf, y bydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei ryddhau wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig. Mae SYG wedi dweud y bydd canfyddiadau cychwynol y Cyfrifiad yn cael eu rhyddhau ym mis Mawrth 2022 a bydd y datganiad a'r allbynnau terfynol yn cael eu rhyddhau ym mis Mawrth 2023. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa debyg fel y gwelwyd ar y cam blaenorol o ran CDLI ar Adnau'r cynllun mabwysiedig. O ganlyniad, argymhellir bod yr adolygiad o'r CDLI yn defnyddio'r amcanestyniadau diweddaraf. Nodir y bydd angen adolygu'r rhain pan fydd gwybodaeth y Cyfrifiad am y boblogaeth ac aelwydydd yn cael ei rhyddhau i ddeall yn llawn yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y gofyniad annedd.

4.2. YSTYRIAETHAU ECONOMAIDD

CYFLOGAETH

4.2.1. Rhoddwyd sylw i ystyriaethau cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig yn seiliedig ar ganfyddiadau Papur Cefndir yr Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth (2013) a gynhaliwyd gan BE Group ar ran y Cyngor.

- 4.2.2. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymchwil megis ymweliadau safle a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid y farchnad eiddo fel datblygwyr, buddsoddwyr a'u hasiantau. Ymgynghorwyd yn unigol â nifer o gyflogwyr a thirfeddianwyr mawr yn y Fro, yn ogystal ag asiantaethau allweddol yn y sector cyhoeddus megis Llywodraeth Cymru. Adolygwyd y farchnad eiddo yn ardaloedd yr awdurdodau lleol ger Bro Morgannwg drwy ddatansoddiad bwrdd gwaith o strategaethau cyflogaeth a chynllunio, ac ymgynghoriadau gyda swyddogion o'r awdurdodau lleol hynny. Yn olaf, aseswyd y cyflenwad tir yn erbyn data a ragwelwyd i ddeall yr angen am dir yn y dyfodol.
- 4.2.3. Arweiniodd canfyddiadau'r astudiaeth at brif gyflenwad strategol o 433.50 ha. Fodd bynnag, mae hwn yn gyfanswm gros a oedd yn cynnwys ardaloedd o dir sydd eisoes wedi'u datblygu; nad oes modd eu datblygu oherwydd cyfyngiadau safle; sy'n debygol o gael eu cadw/datblygu ar gyfer seilwaith neu ddefnyddiau cyflogaeth nad ydynt yn rhai dosbarth B. Gallai 6.64 ha arall gyfrannu at anghenion lleol yn hytrach na strategol. Mae cyfrifo am yr holl ddiyniadau hyn yn lleihau'r cyflenwad tir strategol tua 28 y cant i 312.90 ha. O ran cyflenwad tir cyflogaeth lleol, roedd 55.30 hectar o dir cyflogaeth lleol ar gael. Mae 87.1 y cant o hyn (48.16 ha) yn cynnwys tir yn y Barri/Sili a Llandŵ. Ac eithrio tir y bernir ei fod yn annatblygadwy/economaidd anymarferol, mae'n lleihau'r cyflenwad hwn i 46.20 ha. Fodd bynnag, mae cynnwys tir o'r cyflenwad strategol, sy'n debygol o gael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion lleol, yn rhoi cyflenwad lleol realistig o 52.84 ha.
- 4.2.4. Yn seiliedig ar gyfraddau defnydd hirdymor o dir cyflogaeth yn y gorffennol, y galw a ragwelir yw 53.00 ha (39.75 ha, ynghyd â chlustog 5 mlynedd o 13.25 ha i adlewyrchu dewis o safleoedd ac i ddarparu continwmm o gyflenwad y tu hwnt i ddiwedd cyfnod y Cynllun). Ystyriwyd bod y galw a ragwelwyd a'r cyflenwad realistig ar ecwilibriwm, gyda'r galw am 53.00 ha a'r ddarpariaeth yn 52.84 ha. Mae modelau rhagolygu eraill, fel amcanestyniadau cyflogaeth a chyflenwad llafur, yn awgrymu bod gan y Fro orgyflenwad mawr o dir cyflogaeth. Byddai hyn yn awgrymu bod y cyflenwad tir presennol yn llawer uwch na'r gofynion a gellid ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau hyn yn ystyried y galw, methiannau yn y farchnad eiddo nac angen am amrywiaeth o safleoedd a lleoliadau i roi dewis i gwmnïau; clustogfa 5 mlynedd i sicrhau continwmm o gyflenwad y tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Fe'u gwrthddywedir yn aml gan dystiolaeth empirig a gynhyrchir gan yr astudiaeth hon.
- 4.2.5. Roedd y cyflenwad tir cyflogaeth gofynnol yn llywio'r dyraniadau cyflogaeth a gynhwyswyd yn y CDLI mabwysiedig ac a grynhowyd o dan Bolisi CDLI MG9 – Dyraniadau Cyflogaeth. Dangosir y tir a ddyrannwyd o fewn y CDLI mabwysiedig yn Nhabl 5 isod:

**Tabl 5: Dyraniadau Cyflogaeth CDLI Mabwysiedig**

Cyfeirnod:	Safle	Dibenion	Gros Safle (ha)	Net Safle (ha)
1	Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4, Hensol	B1, B2, B8	55.16	29.59
2	Tir ger Maes Awyr Caerdydd a Port Road, y Rhws (rhan o Ardal Fenter Sain Tathan - Maes	B1, B2, B8	77.4	76.64



	Awyr Caerdydd)			
3	Parc Busnes Awyrfod, Sain Tathan, y Rhws (rhan o Ardal Fenter Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd)	Parc Busnes Awyrfod, Cyflogaeth ac addysg	305	208
Is-gyfanswm			437.56	314.23
4	Ystâd Fasnachu'r Iwerydd	B1, B2, B8	9.14	9.14
5	Tir yn Ffordd y Mileniwm	B1, B2, B8	8.9	8.9
6	Hayes Lane, Y Barri	B1, B8	1.4	1.4
7	Hayes Road, Sili	B1, B8	7.5	7.5
8	Hayes Wood, Y Barri	B1, B8	1.9	1.9
9	Ystâd Fasnachu Llandŵ	B1, B2, B8	6.8	6.8
10	Parc Busnes y Fro	B1, B2, B8	12.4	12.4
11	Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4, Hensol	B1, B2	6.64	6.64
Is-gyfanswm			54.68	54.68
Cyfanswm			492.24	368.91

4.2.6. Dylid nodi bod y tir cyflogaeth a ddyrennir o fewn y Cynllun a fabwysiadwyd ychydig yn fwy na'r cyflenwad a nodwyd ym Mhapur Cefndir yr Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth. Mae hyn o ganlyniad i adolygiad o'r cyflenwad tir lleol a gynhaliwyd fel rhan o'r sesiynau gwrandawriad yn ystod yr Archwiliad CDLI a nododd dir ychwanegol yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd (MG9 (4) C). Darparodd estyniad y plot 1.84 ha ychwanegol o dir cyflogaeth, gan gynyddu maint MG9 (4) C o 0.50 ha i 2.34 ha, y safle cyflenwi tir MG9 (4): Ystâd Fasnachu'r Iwerydd o 7.30 ha i 9.13 ha a chyfanswm y cyflenwad tir lleol o Bolisi CDLI MG9 o 52.84 ha i 54.68 ha. At hynny, cynyddwyd y Cyflenwad Tir Strategol i adlewyrchu'r cais amlinellol a gymeradwywyd ar Dir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol (cais 2014/00228/EAO) a oedd ag arwynebedd safle gros mwy ond, oherwydd cyfyngiadau ar y safle a nodwyd yn ystod y broses ceisiadau cynllunio, ardal ddatblygadwy net lai. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cynnydd yn y cyflenwad tir lleol a'r newid cymharol fach mewn tir y gellir ei ddatblygu, ystyriwyd bod digon o dir ar gael at ddibenion cyflogaeth i ateb y galw a ragwelir.


4.2.7. Ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, mae data ystadegol mwy diweddar ar ffurf amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2018 wedi'i ryddhau yn ogystal â data Llafurlu 2018. Gellir defnyddio PopGroup i bennu'r gweithlu tebygol mewn ardal a nifer y swyddi. Dylid nodi nad oes unrhyw ragolygon nac amcanestyniad swyddogol o gyfraddau gweithgarwch economaidd yn y DU, fodd bynnag, defnyddir y 3 senario canlynol i helpu i ragweld gweithgarwch economaidd:

- Cyson – Cyfraddau'r dyfodol ar gyfer pob oedran a rhyw yn gyson ar sail gwerth lleol Cyfrifiad 2011. Y set hon o gyfraddau yw'r set 'ddiofyn' – sy'n cael ei rhedeg yn awtomatig gan y modiwl data.
- CE – Y duedd ar gyfer y DU o Adroddiad Heneiddio'r Comisiwn Ewropeaidd 2015, gan ddechrau o weithgarwch economaidd yr Ardal yng Nghyfrifiad 2011.
- SCC – Y duedd ar gyfer y DU o Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol y Swyddfa


Cyfrifoldeb Cyllidebol 2015, gan ddechrau o weithgarwch economaidd yr Ardal yng Nghyfrifiad 2011.

4.2.8. Yn ogystal â'r uchod, mae data StatsCymru ar y gyfradd ddiweithdra wedi'i gymryd o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth / Arolwg Llafurlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd a chyfradd gymudo o'r Arolwg Llafurlu: Defnyddiwyd cyflogaeth yn ôl galwedigaeth i lywio'r cyflenwad a nodwyd ym mis Rhagfyr 2020 sydd wedi effeithio ar y gyfradd gymudo. Defnyddiwyd data Cyfrifiad 2011 hefyd i gymharu, sy'n cynnwys cyfradd gymudo uwch sy'n effeithio ar nifer y swyddi sydd ar gael ym Mro Morgannwg. Mae Ffigur 6 yn dangos twf y Llafurlu yn ystod cyfnod diwygiedig y cynllun ac mae Ffigur 7 yn dangos y swyddi posibl ar gyfer cyfnod diwygiedig y cynllun gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael:

**Ffigur 6: Cymharu Amcanestyniadau'r Llafurlu**



Ffigur 7: Cymharu Amcanestyniadau Swyddi



4.2.9. Yn seiliedig ar y data economaidd diweddaraf, bydd y Llafurlu yn cynyddu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn dros gyfnod diwygiedig y cynllun. Fodd bynnag, mae cyfradd y newid yn gymharol isel sy'n adlewyrchu'r boblogaeth sy'n heneiddio ym Mro Morgannwg, gan arafu'r twf yn y gweithlu. Mewn perthynas â'r gydberthynas rhwng y gweithlu a swyddi, mae Ffigur 7 yn dangos data economaidd 2020 sy'n cyfrif am y prif gyfnod clo. Mae hyn yn dangos y bydd twf swyddi yn cynyddu yn unol â'r Llafurlu oherwydd bod y gyfradd gymudo yn sylweddol is yn ystod y cyfnod hwn gan fod gweithio gartref wedi'i orfodi ar gyfer gweithwyr anhanfodol yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, mae data economaidd 2011 yn cyfrif am gyfradd gymudo sy'n fwy nodweddiadol ym Mro Morgannwg, sy'n gweld cyfrannau mawr o'r gweithlu yn cymudo i awdurdodau lleol eraill yn enwedig Caerdydd. Felly, mae'r twf posibl mewn swyddi yn llawer llai na'r Llafurlu.

4.2.10. O ran y darlun economaidd cenedlaethol ehangach yng Nghymru, mae'r Arolwg Llafurlu diweddaraf yn dangos mai'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru oedd 74.0% o'r rhai 16-64 oed o gymharu â chyfradd gyflogaeth y DU o 75.2%. Mae hyn 1.8 pwynt canran i fyny ar y chwarter ond heb newid dros y flwyddyn. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021, y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru oedd 4.4% o'r boblogaeth economaidd weithgar. Nid yw hyn wedi newid o'r chwarter blaenorol ond mae wedi cynyddu 1.2 pwynt canran o'i gymharu â blwyddyn yn gynharach.

4.2.11. Yn gyffredinol, mae cyfradd ddiweithdra Cymru wedi olrhain cyfradd y DU ac wedi bod yn gostwng yn raddol ers dechrau'r 2010au, cyn codi'n sydyn yn ystod y cyfnodau diweddar o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Yn y cyfnod rhwng Awst a Thachwedd 2019, gostyngodd cyfradd ddiweithdra Cymru yn is na chyfradd y DU ac mae wedi aros yn is byth ers hynny. O ran effaith Covid ar weithgarwch economaidd yng Nghymru, mae StatsCymru wedi nodi cynnydd mawr yn y gyfradd sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru ers mis Chwefror 2020. Er na fydd pawb sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn yn ddi-waith, cafwyd cynnydd o 87.7% yn nifer y bobl a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol ddechrau mis Mawrth 2021 o'i gymharu â mis Chwefror 2020. Ym mis Mawrth 2021,

roedd 112,000 o bobl yn hawlio budd-dal diweithdra yng Nghymru, sef cyfradd o 7.4% o'r gweithlu.

- 4.2.12. Mae'r uchod yn dangos bod nifer o newidiadau economaidd wedi digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r rhagolygon cyflogaeth rhagarweiniol ar gyfer Bro Morgannwg yn dangos gofyniad swyddi amrywiol yn dibynnu ar sut mae'r amgylchedd llafur yn newid oherwydd effaith y pandemig Covid-19. Bydd angen i'r CDLI diwygiedig gynnal ymchwil bellach gyda'r rhanddeiliaid perthnasol ac ystyried ystadegau economaidd newydd a ryddhawyd fel rhan o Gyfrifiad 2021 (dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2023) i ddeall yr effaith y bydd y newidiadau cyd-destunol yn ei chael ar y gofyniad i gyflenwi tir ar gyfer cyflogaeth.

---

#### PANDEMIG COVID-19

- 4.2.13. Mae argyfwng iechyd Covid-19 wedi creu heriau sylweddol a digynsail ac nid yw ei effaith ar fusnesau a normau cymdeithasol yn glir o hyd. Bydd angen ystyried rôl cynllunio i gynorthwyo unrhyw adferiad economaidd a chymdeithasol yn y sail dystiolaeth ar gyfer y CDLI newydd.
- 4.2.14. Er bod effaith y pandemig yn dal i ddod i'r amlwg, derbynnir yn gyffredinol fod y pandemig wedi cael effaith fawr ar y ffordd y mae pobl yn gweithio, siopa, teithio a sut mae unigolion yn rhyngweithio gyda mannau gwyrdd. Bydd angen ystyried yr effeithiau hyn ymhellach drwy sylfaen dystiolaeth y CDLI, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion cyflogaeth, manwerthu a seilwaith yn y dyfodol.
- 4.2.15. Yn ogystal, ym mis Medi 2020, cyhoeddodd y Cyngor Strategaeth Adfer y Coronafeirws<sup>1</sup>, a amlygodd yr effeithiau cymdeithasol, economaidd a lles y mae'r pandemig wedi'u cael ar gymunedau ac sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor, i'w gweithredu drwy Gynlluniau Cyflawni Blynyddol y Cyngor. Rhai pethau sydd o bwys i'r adolygiad o'r CDLI yw'r ffocws ar dwf economaidd gwyrdd, cyflogaeth a seilwaith; mynd i'r afael â'r angen am dai gan gynnwys lleihau digartrefedd; hyrwyddo teithio llesol, cofleidio gweithio gartref a gwella mannau cyhoeddus a thir cyhoeddus. Mae'r themâu hyn yn debygol o gael eu hadlewyrchu yn y cynllun newydd yn ogystal â'r rôl ehangach y gall cynllunio ei chael wrth gynorthwyo gyda'r adferiad.

#### 4.3. CASGLIAD

- 4.3.1. Ers mabwysiadu CDLI Bro Morgannwg, bu nifer o newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol sydd â goblygiadau uniongyrchol o ran cynllunio defnydd tir, yn ogystal â nifer o ddogfennau pwysig y Cyngor megis CLI, Argyfwng Hinsawdd a'i ymateb i'r pandemig Covid a allai ddylanwadu ar gyfeiriad strategol y CDLI Newydd. Gyda'i gilydd, mae'r polisi a'r canllawiau deddfwriaethol newydd ochr yn ochr â'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r boblogaeth yn gwyr'n sylweddol oddi wrth yr hyn a oedd yn llywio'r CDLI presennol ac yn cefnogi'r angen i ymateb i'r fframwaith newydd a blaenoriaethau strategol presennol y Cyngor.

---

<sup>1</sup> <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Committee%20Reports/Cabinet/2020/20-09-21/Coronavirus-Recovery-Strategy.pdf>

## 5. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL YR ADOLYGIAD MONITRO BLYNYDDOL

- 5.1.1. Fel y cynghorir yn Llawlyfr y CDLI, dylai adolygiad o'r Cynllun, ymhlith pethau eraill, ddefnyddio canfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) cyhoeddedig. Mae'r Cyngor wedi paratoi 3 AMB ers mabwysiadu'r CDLI yn 2017. Mae'r rhain i gyd ar gael ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol:  
[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/planning\\_and\\_building\\_control/Planning/planning\\_policy/Planning-Policy.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/planning_and_building_control/Planning/planning_policy/Planning-Policy.aspx)
- 5.1.2. Cyhoeddwyd yr AMB diweddaraf ym mis Hydref 2021 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod monitro rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae Tabl 6 isod yn nodi crynodeb o ganlyniadau AMB CDLI y Cyngor dros y 3 blynedd diwethaf.

Tabl 6: Crynodeb o Ganlyniadau AMB y CDLI

Dangosyddion	2018/2019	2019/2020	2020/2021
<b>Craidd a Lleol</b>			
Cadarnhaol	60	59	59
Angen hyfforddiant	1	0	0
Angen CCA	3	0	0
Ymchwil bellach	2	2	1
Adolygiad Polisi	0	0	0
Adolygiad o'r Cynllun	0	0	0

- 5.1.3. Y casgliadau allweddol yn y drydedd flwyddyn o fonitro yw bod y rhan fwyaf o bolisiau'r Cynllun yn parhau i berfformio'n dda o ran cyflawni strategaeth y CDLI a chyflawni'r targedau a nodir yn y fframwaith monitro. Mae'r AMBau hefyd yn dangos bod y CDLI wedi cael effeithiau cadarnhaol yn bennaf ac mae'r fframwaith polisi wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau datblygu cynaliadwy. Ystyrir dadansoddiad pellach o'r AMB yn erbyn fframwaith strategaeth a pholisi presennol y CDLI yn adrannau 6 a 7.

## 5.2. MONITRO CYNALIADWYEDD

- 5.2.1. Mae monitro'r AC yn wahanol i fonitro'r CDLI gan ei fod yn monitro cyflwr yr amgylchedd yn hytrach na pherfformiad y CDLI. Mae Monitro AC y CDLI yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nododd yr AC cychwynnol gyfres o 15 amcan a datblygwyd dangosyddion a thargedau i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI. Nodir hyn yn Adran 6 o'r AMB.
- 5.2.2. Er bod llawer o'r dangosyddion yn adlewyrchu polisiau'r cynllun ac yn gallu cael eu dylanwadu ganddynt, mae eraill y tu allan i gylch gwaith y CDLI ac yn adlewyrchu materion amgylcheddol ehangach. Yn hyn o beth, mae monitro'r AC drwy'r AMBau yn darparu asesiad amrywiol. Mae'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â pholisiau CDLI yn gadarnhaol i raddau helaeth ac yn adlewyrchu llwyddiant cyffredinol y Cynllun mewn meysydd fel tai fforddiadwy, cyfleusterau cymunedol a mannau agored, gan osgoi datblygiadau newydd mewn parthau llifogydd, lleihau gwastraff, diogelu asedau amgylcheddol a diogelu'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Fodd bynnag, mae dangosyddion eraill sy'n adlewyrchu'r darlun amgylcheddol ehangach megis newid yn yr hinsawdd, ansawdd dŵr ac amddifadedd yn cynnig asesiad sefydlog neu negyddol.

- 5.2.3. Bydd angen adolygiad trylwyr o'r AC/AAS i ystyried y newidiadau cyd-destunol ehangach o ran polisi a chanllawiau cenedlaethol fel y nodir uchod a newidiadau a diweddariadau i'r wybodaeth sylfaenol a fydd yn cael ei pharatoi fel rhan o broses adolygu'r CDLI. Bydd Adroddiad Cwmpasu'r AC yn cael ei adolygu yn unol â hynny, gan gynnwys methodoleg a fframwaith monitro'r AC. Bydd hefyd angen ystyried integreiddio gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Iechyd mewn un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).

## 6. ADOLYGIAD O'R CDLL A NEWIDIADAU POSIBL I'R DYFODOL

### 6.1. GWELEDIGAETH, AMCANION A STRATEGAETH Y CDLL

#### GWELEDIGAETH Y CDLL

6.1.1. Mae Gweledigaeth y CDLI yn adlewyrchu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg (a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg):

*"Ein Gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg yw lle:*

- sy'n ddiogel, glân a deniadol, lle mae gan unigolion a chymunedau gyfleoedd cynaliadwy i wella eu hiechyd, dysgu a sgiliau, ffyniant a lles; a*
- lle mae ymdeimlad cryf o gymuned lle mae gan grwpiau ac unigolion lleol y gallu a'r cymhelliant i wneud cyfraniad effeithiol at gynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol."*

6.1.2. Ers mabwysiadu'r CDLI, disodlwyd Strategaethau Cymunedol gan Gynlluniau Integredig Sengl (CIS) ac o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru gyda'r gofyniad i gyhoeddi Cynlluniau Lles Lleol (CLLI). Nod y rhain yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol drwy weithio i gyflawni'r nodau lles.

6.1.3. Yn 2018, cyhoeddwyd Cynllun Lles 1af Bro Morgannwg, "Ein Bro Ein Dyfodol" sy'n cynnwys cynllun 5 mlynedd (2018-2023) ac yn ceisio ymateb i ganfyddiadau Asesiad Lles y BGC a gynhaliwyd yn 2017.

6.1.4. Mae CLI Bro Morgannwg yn ceisio mynd i'r afael â'r materion iechyd a lles sy'n effeithio ar drigolion Bro Morgannwg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n byw yn y wardiau mwyaf difreintiedig sy'n profi lefelau uwch o anghydraddoldebau iechyd a disgwyliad oes is, ac yn nodi'r weledigaeth gyffredin ganlynol ar gyfer Bro Morgannwg yn 2050:

*"Bydd gan bawb ymdeimlad o berthyn a byddant yn falch o fod yn rhan o'r Fro, gan gydnabod eu cyfraniad at lwyddiant y rhanbarth a Chymru. Bydd ein heffaith ar yr amgylchedd, yn lleol ac yn rhyngwladol, yn cael ei deall, a bydd gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn yr amgylchedd a'n hadnoddau naturiol er budd cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Fro yn ardal o obaith a dyheadau, lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni eu dyheadau unigol ac yn cael cymorth drwy'r blynyddoedd cynnar, plentyndod a blynyddoedd y glasoed. Bydd nodweddion cadarnhaol ein poblogaeth sy'n heneiddio yn cael eu cydnabod a'u parchu a byddwn yn gwerthfawrogi cyfraniad pobl hŷn at hyfywedd a gwydnwch y Fro. Bydd preswylwyr o bob oed a chefnidir yn cyfrannu at fywyd cymunedol, yn helpu i lywio gwasanaethau ac yn falch o'r ardal y maen nhw'n byw ynddi. Bydd cydweithio er budd cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn arferol, a bydd preswylwyr yn hyderus yn y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn a'u gallu i newid i wella lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Bydd anghydraddoldebau addysgol ac iechyd yn rhywbeth o'r gorffennol wrth i ni gydweithio ar gyfer Bro lle gall pawb gael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iachus, diogel a llawn."*

- 6.1.5. Mae'r CLI yn manylu ar bedwar amcan lles sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y meysydd gwaith cydweithredol craidd, dros y 5 mlynedd nesaf ac ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu hirdymor hyd at 2050. Dyma'r amcanion:
- Amcan 1: Galluogi pobl i gymryd rhan a chyfranogi yn eu cymunedau lleol a siapio gwasanaethau lleol
  - Amcan 2: Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd
  - Amcan 3: Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant
  - Amcan 4: Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd
- 6.1.6. Mae'r CLI hefyd yn tynnu sylw at sut y gall cynllunio a'r amgylchedd adeiledig a naturiol ddylanwadu ar iechyd a lles. Er enghraifft, gall wella mynediad i fannau agored a gwyrdd i annog ffyrdd egniol o fyw a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac allgáu cymdeithasol drwy sicrhau trafndiaeth gyhoeddus dda i gael mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol.
- 6.1.7. Mae proses adolygu'r CDLI yn rhoi'r cyfle i adolygu gweledigaeth y CDLI mabwysiedig fel y gall adlewyrchu ymhellach y dyheadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yng ngweledigaeth CLI Bro Morgannwg a chyfrannu at fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn CLI. Mae hyn hefyd yn gyson â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu'r CDLI (Argraffiad 3, 2020) sy'n nodi y dylai CLlau fod yn rhan allweddol o'r sylfaen dystiolaeth ac y dylid eu defnyddio i lunio a dylanwadu ar weledigaeth, strategaeth ac amcanion y CDLI ochr yn ochr ag amcanion creu lleoedd cenedlaethol yn PCC.

## 6.2. ADOLYGIAD O AMCANION Y CDLL

- 6.2.1. Ategir Gweledigaeth y CDLI mabwysiedig gan 10 amcan strategol sy'n cwmpasu'r materion cymdeithasol, economaidd a chynaliadwy allweddol a nodwyd wrth baratoi'r Cynllun. Fe'u datblygwyd hefyd i gefnogi Gweledigaeth Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg.
- 6.2.2. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn rhoi cyfle i'r CDLI Newydd ystyried sut y gall yr amcanion gefnogi amcanion lles cenedlaethol a lleol. Er mwyn llywio'r adolygiad, mae tabl 7 isod yn cymharu cydnawsedd amcanion presennol y CDLI â'r saith nod lles cenedlaethol a phedwar amcan strategol CLI Bro Morgannwg.
- 6.2.3. Mae'r tabl yn dangos bod amcanion presennol y CDLI yn cyd-fynd yn gyffredinol â themâu trawsbynciol y Nodau Lles Cenedlaethol a rhai CLI Bro Morgannwg. Fodd bynnag, mae lle i wella amcanion y CDLI i roi mwy o bwyslais ar faterion allweddol fel newid yn yr hinsawdd ac iechyd a lles. Mae BGC Bro Morgannwg wedi dechrau ei adolygiad o'r CLI a disgwylir iddo gynhyrchu diweddariad i'w asesiad lles yn 2022, a fydd yn rhoi cyfle pellach i'r CDLI Newydd gefnogi amcanion iechyd a lles CLI y dyfodol, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023.



Tabl 7: Cymharu Amcanion presennol y CDLI a Nodau Lles Cenedlaethol ac Amcanion Cynllun Lles Bro Morgannwg

Amcanion y CDLI	Nodau Lles Cenedlaethol						Amcanion Cynllun Lles Bro Morgannwg			
	Cymru Lewyrchus	Cymru Wydn	Cymru Iachach	Cymru Fwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau Cydlynol	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang	Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapiao gwasanaethau lleol	Lleihau tiodi a threchu anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd	Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd
Amcan 1: Cynnal cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg a'u datblygu ymhellach, gan ddarparu cyfleoedd byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu i bawb.										
Amcan 2: Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau effaith a lleihau effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd.										
Amcan 3: Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i fodloni eu hanghenion bob dydd a darparu mwy o ffurfiau cynaliadwy ar drafnidiaeth.										
Amcan 4: Diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol Bro Morgannwg.										

Amcan 5: Cynnal, gwella a hyrwyddo cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ym Mro Morgannwg.											
Amcan 6: Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau siopa tref, ardal, lleol a chymdogaeth Bro Morgannwg.											
Amcan 7: Rhoi cyfle i bobl ym Mro Morgannwg ddiwallu eu hanghenion tai.											
Amcan 8: Meithrin datblygiad economi leol amrywiol a chynaliadwy sy'n bodloni anghenion Bro Morgannwg a Rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru.											
Amcan 9: Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda darlun positif i Fro Morgannwg, gan annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i wella profiad ymwelwyr a phreswylwyr.											
Amcan 10: Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir mewn modd effeithiol ac effeithlon a hyrwyddo defnydd a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.											

## 6.3. ADOLYGIAD O STRATEGAETH CDLL BRO MORGANNWG

6.3.1. Mae Strategaeth y CDLI mabwysiedig yn cynnwys pedair elfen allweddol:

1. Hyrwyddo cyfleoedd datblygu yn y Barri a Pharth y De-ddwyrain
2. Ardal Sain Tathan i fod yn gyfle datblygu allweddol
3. Maes Awyr Caerdydd yn ganolbwynt ar gyfer buddsoddi mewn trafniadaeth a chyflogaeth
4. Aneddiadau cynaliadwy eraill i ddarparu ar gyfer tai pellach a datblygiadau cysylltiedig

6.3.2. O ran mesur pa mor llwyddiannus fu gweithredu'r strategaeth, mae'r adrannau canlynol yn ystyried perfformiad cyffredinol y CDLI fel y maent yn ymwneud ag agweddau allweddol sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y CDLI, sef darparu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, darparu dyraniadau tai, dosbarthiad gofodol twf tai, cynnydd ar safleoedd strategol, darparu seilwaith allweddol a thwf cyflogaeth.

---

### TWF TAI (POLISI'AU STRATEGOL SP1, SP3, POLISI RHEOLI POLISI MG1)

### 7.3. LLETY SIPSIWN A THEITHWYR - POLISÏAU MG5, MD18

- 7.3.1. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu anghenion llety teuluoedd sipsiwn a theithwyr a chynnwys polisïau ar gyfer darparu safleoedd sipsiwn a theithwyr yn y CDLI. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety sipsiwn a theithwyr yn cael eu hasesu'n briodol a bod yr angen a nodwyd am leiniau ychwanegol yn cael ei ddiwallu.
- 7.3.2. Yn hyn o beth, mae'r adolygiad o bolisïau'r Cynllun yn dangos bod yr angen am lety tymor byr i ganolog ar gyfer sipsiwn a theithwyr fel y'i nodir ym Mholisi MG5 wedi'i fodloni'n gynnar yng nghyfnod y cynllun. O ran yr angen tymor hwy, bydd gwaith a wnaed yn flaenorol ar nodi safleoedd i ddiwallu'r angen tystiolaethol am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a thrawsteithiol awdurdodedig i'w darparu gan y Cyngor yn cael ei ddatblygu yn yr adolygiad o'r CDLI ac yn cael ei lywio drwy baratoi Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) diwygiedig, a fydd yn cael ei baratoi yn ystod 2021. Bydd yr ALISTh diwygiedig yn sefydlu anghenion llety presennol sipsiwn a theithwyr ym Mro Morgannwg a bydd yn rhan o dystiolaeth gefndir y CDLI Newydd.
- 7.3.3. Mae rhoi cymeradwyaethau cynllunio ar gyfer 9 llain breifat ar 5 safle ledled Bro Morgannwg (gan gynnwys safle dros dro ac adnewyddu cymeradwyaeth gynllunio flaenorol) yn dangos bod polisi MD18 sy'n seiliedig ar feini prawf yn gweithio'n dda ac yn galluogi datblygu safleoedd preifat.
- 7.3.4. O ran darparu safleoedd trawsteithiol, mae consensws ymhlith awdurdodau lleol Deddfwyrain Cymru y byddai safleoedd trawsteithiol yn cael eu hystyried a'u darparu orau ar sail ranbarthol. Yn hyn o beth, sefydlwyd gweithgor rhanbarthol i ymchwilio i angen trawsteithiol rhanbarthol sipsiwn a theithwyr ac i nodi safleoedd posibl, a bydd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i broses adolygu'r CDLI.

### 7.4. CYFLOGAETH - POLISÏAU SP5, MG9, MD14, MD15, MD16, MD17

- 7.4.1. Cafodd y polisïau cyflogaeth yn y CDLI eu llywio gan argymhellion Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth 2013. Roedd hyn yn cynnwys llunio polisïau a oedd yn diogelu tir cyflogaeth presennol a neilltuedig ar gyfer defnyddiau Dosbarth B a defnyddiau economaidd eraill, lle y bo'n briodol, sy'n gwella'r economi. Y tu allan i'r prif safleoedd cyflogaeth, hyrwyddwyd dull mwy hyblyg o helpu i hwyluso ystod eang o ddatblygu economaidd.
- 7.4.2. Mae Polisïau SP5 ac MG9 yn ymwneud â'r dyraniadau cyflogaeth ac yn ceisio sicrhau bod digon o gyflenwad tir cyflogaeth i ateb y galw yn y dyfodol. Y targed AMB ar gyfer 2020 oedd sicrhau caniatâd cynllunio ar 20% (73.6ha) o dir cyflogaeth a ddyrannwyd. Mae'r Cyngor wedi rhagori ychydig ar darged monitro 2020 ar gyfer y dangosydd hwn. Mae'r CDLI yn dyrannu cyfanswm o 368.91 ha (net) o dir cyflogaeth ym Mholisi MG9. Yn ystod cyfnod y CDLI (o 2011 ymlaen) mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 87.039 ha o ddefnydd cyflogaeth ar y dyraniadau cyflogaeth sy'n cyfateb i 23.59% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd. Mae'r targed monitro nesaf a amlinellir yn Fframwaith Monitro'r CDLI yn nodi bod angen i'r Cyngor sicrhau caniatâd cynllunio ar 44% (163 ha) o dir cyflogaeth erbyn 2022. Dylid nodi bod dau gais wedi'u cymeradwyo ym mis Ebrill 2021 sy'n disgyn y tu

allan i drydydd cyfnod yr AMB, sef 2019/01421/RES (MG9 (1) yn rhannol) a 2020/01367/RG3 (MG9 (4) Plot C yn rhannol) sy'n cyfateb i 9.225ha. Yn ogystal, cymeradwywyd 44.75ha o dir cyflogaeth yn Model Farm (MG9[2]) ym mis Gorffennaf 2021. Mae hyn yn dangos bod dyraniadau cyflogaeth yn cael eu cyflwyno'n gyson yn ystod cyfnod y cynllun ac mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed monitro nesaf.

- 7.4.3. O ganlyniad, ystyrir bod polisiau SP5 ac MG9 yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, o ran y cyflenwad tir cyflogaeth, bydd angen adolygu hyn er mwyn deall yn well y newidiadau economaidd cyd-destunol sy'n dylanwadu ar y galw am dir cyflogaeth.
- 7.4.4. Mewn perthynas â'r polisiau cyflogaeth sy'n weddill, MD15, MD16, ac MD17, sy'n rheoli sut yr ystyrir datblygiadau annisgwyl mewn penderfyniadau rheoli datblygu, mae'r rhain wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Nid oes unrhyw ddyraniadau cyflogaeth wedi'u colli i ddefnyddiau nad yw'n ddosbarth B yn unol â Pholisi MD15 (Diogelu Safleoedd Cyflogaeth a Ddyrannwyd) ac ystyrir bod hyn yn dangos bod Polisi MD15 yn gweithio'n effeithiol. O ran Polisi MD16 – Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Presennol, mae'r polisi wedi gweithio fel y bwriadwyd gyda 31 o geisiadau cynllunio allan o 33 o geisiadau yn cael eu cymeradwyo yn unol ag MD16. Fodd bynnag, cymeradwywyd y 2 gais arall yn groes i feini prawf MD16. Darparodd un cais (2018/01108/FUL) 72 o dai fforddiadwy yn y Barri, ardal o angen tai a nodwyd. Yn hyn o beth, ystyriwyd bod y manteision sy'n deillio o'r cynllun mewn perthynas â darpariaeth tai fforddiadwy yn gwrthbwysu colli'r elfen fach o ddefnyddiau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r safle. Roedd y cais arall (2019/00178/FUL) at ddefnydd preswyl. Ystyriwyd ar y cyfan fod trosiad preswyl arfaethedig yn dderbyniol o ystyried cyflwr gwael yr eiddo a'r posibilrwydd afrealistig o aildefnyddio'r adeilad yn economaidd fel swyddfa.
- 7.4.5. Er bod y sbardun monitro o 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio sy'n arwain at golli tir cyflogaeth wedi'i fwrw, ystyriwyd bod y manteision sy'n deillio o golli'r safle cyflogaeth presennol yn y ddau gais yn mynd i'r afael ag angen mwy difrifol am dai yn y Barri ac yn cyfrannu at amcanion eraill y Cynllun. Fodd bynnag, yn dilyn adborth gan ymgeiswyr a swyddogion rheoli datblygu wrth gymhwyso MD16, ystyriwyd hefyd fod angen canllawiau ychwanegol i egluro'r dehongliad o MD16. Mewn ymateb i hyn, mae CCA Tir a Safleoedd Cyflogaeth wedi'i ddrafftio ac mae'n aros am gymeradwyaeth y cabinet ar gyfer ymgynghori. Ystyrir bod hyn yn ddigon i fynd i'r afael â'r pryderon dehongli a godwyd gan swyddogion rheoli datblygu yn y tymor byr.
- 7.4.6. O ran Polisi MD17 – Menter Wledig, nid yw hyn yn rhan o'r AMB ond mae cysylltiadau rhwng polisiau eraill fel MD16 sydd wedi bod yn effeithiol. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r tîm rheoli datblygu i ddeall a yw'r polisi wedi bod yn effeithiol ac a oes angen ei ddiwygio fel rhan o'r broses CDLI Newydd.

## 7.5. SAFLEOEDD STRATEGOL - POLISIAU SP2, MG3, MG10, MG11

- 7.5.1. Cyfeiriwch at adran 6 uchod i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiau sy'n ymwneud â'r safleoedd strategol yng Nglannau'r Barri, Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd. Yn gyffredinol, mae'r AMBau yn cadarnhau bod cynnydd da wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â chyflawni'r safleoedd strategol hyn. Fodd bynnag, o ystyried graddfa ac amserlen weithredu'r safleoedd strategol hyn, maent yn debygol o gael eu dwyn ymlaen i'r CDLI Newydd a'u cyfeirio mewn gwahanol bolisiau.

## 7.6. MANWERTHU - POLISIŌAU SP6, MG12, MG13, MG14, MG15

- 7.6.1. Cafodd polisïau manwerthu presennol y CDLI eu llywio gan Asesiad Anghenion Manwerthu CACI (2009) a ddiweddarwyd fel rhan o broses Archwilio'r CDLI yn dilyn ymholiadau gan yr Arolygydd. Arweiniodd hyn at y gofyniad manwerthu am ofod llawr cyfleustra a chymharu newydd a nodwyd o dan Bolisi SP6. Canfu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Astudiaeth Fanwerthu a gynhaliwyd fel rhan o'r sesiynau gwrandawriad fod yr angen manwerthu a nodwyd ar gyfer cyfnod y Cynllun wedi'i fodloni cyn ei fabwysiadu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad manwerthu annisgwyl yn cael ei reoli'n briodol, roedd y CDLI yn cynnwys gwahanol bolisiau manwerthu i reoli a chynnal amgylchedd manwerthu hyfyw mewn canolfannau manwerthu presennol. Roedd hyn yn cynnwys MG12, MG13, MG14 ac MG15. Mae effeithiolrwydd y polisïau hyn o ran cynnal a, lle y bo'n bosibl, wella atyniad, bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau manwerthu a nodwyd wedi'i fonitro fel rhan o'r AMBau. Ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r arwynebedd llawr manwerthu mewn canolfannau tref ac ardal wedi gostwng. Bu gostyngiad o 5.05% mewn arwynebedd llawr manwerthu mewn canolfannau tref ac ardal sy'n cyfrif am ostyngiad o 4,143 metr sgwâr o 82,019 metr sgwâr o ofod llawr manwerthu yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen edrych ar hyn yng ngoleuni'r enillion newydd mewn defnyddiau swyddfa a hamdden mewn canolfannau tref ac ardal sydd wedi'u cymeradwyo'n bennaf fel cynigion newid defnydd o ddefnyddiau manwerthu gwreiddiol. Dylid nodi bod rhai o'r defnyddiau manwerthu a gollwyd o ganlyniad i addasiadau preswyl, ond mae hyn yn ymwneud â 2 uned fanwerthu yn unig. Ystyrir felly nad yw colli gofod manwerthu wedi cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y canolfannau sy'n parhau i feddu ar swyddogaeth fasnachu gref. Mae hyn yn dangos bod Polisi MG12 (Hierarchaeth Fanwerthu) yn gweithio'n effeithiol gan fod datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden newydd yn cael eu cyfeirio'n gyffredinol at ganolfannau tref ac ardal yn unol â'r dull dilyniannol a hyrwyddir gan bolisi cynllunio cenedlaethol.
- 7.6.2. Ers dechrau monitro'r CDLI mabwysiedig yn 2018, dim ond un datblygiad defnydd swyddfa mawr sydd wedi'i gymeradwyo y tu allan i'r canolfannau tref ac ardal a nodwyd. Mae'r gymeradwyaeth hon yn ymwneud â chydysniad agored (2019/01260/HYB) ar safle cyflogaeth strategol penodedig (Polisi MG9 (3) Parc Busnes Awyrofod, Sain Tathan). Felly, ystyriwyd bod defnydd cyflogaeth mawr yn y lleoliad hwn yn briodol. Nodir y bu rhai cymeradwyaethau ar gyfer datblygiadau manwerthu bach ar gyrion y canol ac y tu allan i'r canol. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi bod yn unol â'r meini prawf a nodir ym Mholisi MG13 – Ardaloedd Manwerthu Ar y Cyrion a'r Tu Allan i'r Dref. O ganlyniad, ystyrir bod Polisi MG12 ac MG13 yn gweithio'n effeithiol. Er gwaethaf hyn, bydd angen adolygu'r hierarchaeth fanwerthu ynghyd â'r ffiniau manwerthu a'r ardaloedd siopa cynradd lle bo hynny'n berthnasol fel rhan o'r broses CDLI Newydd.
- 7.6.3. Mewn perthynas â pholisïau MG14 ac MG15, mae monitro'r polisïau hyn wedi codi pryderon yn barhaus am faint o ddefnyddiau ac eithrio A1 sydd mewn ffryntiadau siopa cynradd ac eilaidd, lefel y swyddi gwag, a'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Dengys Tabl 15 ganran y defnyddiau ac eithrio A1 mewn canolfannau tref ac ardal:

Tabl 15: Canran y Defnyddiau ac eithrio A1 mewn Canolfannau Tref ac Ardal

	2019		2020		2021	
	An-A1 mewn Ffryntiad	An-A1 mewn Ffryntiad	An-A1 mewn Ffryntiad	An-A1 mewn Ffryntiad	An-A1 mewn Ffryntiad	An-A1 mewn Ffryntiad

	Cynradd (%)	Eilaidd (%)	Cynradd (%)	Eilaidd (%)	Cynradd (%)	Eilaidd (%)
<b>Canol Tref</b>						
Heol Holltwn	39.0	63.9	38.0	62.3	38.0	62.3
<b>Canolfannau Ardal</b>						
Y Bont-faen	29.2	66.7	28.8	57.6	31.3	57.1
Stryd Fawr/Broad St	46.2	56.8	48.7	52.3	50.0	55.6
Llanilltud Fawr	39.1	54.3	39.1	54.3	34.8	54.3
Penarth	37.8	43.0	38.9	44.3	37.8	42.7

7.6.4. Nodir bod y lwfans defnydd an-A1 o 35% o fewn ffryntiadau cynradd wedi'i ragori yn Heol Holltwn, Stryd Fawr / Broad Street a Phenarth. Mae'r lwfans o 50% ar gyfer defnyddiau an-A1 mewn ffryntiadau eilaidd hefyd wedi'i ragori yn Heol Holltwn, y Bont-faen, y Stryd Fawr / Broad Street a Llanilltud Fawr. Er bod y rhan fwyaf o ganolfannau'n uwch na'r lwfans an-A1 yn y ffryntiadau diffiniedig, ystyrir bod hyn yn fwy adlewyrchol o'r sector manwerthu cenedlaethol sydd wedi gweld symudiad i ffwrdd o ddibynnu ar ddefnyddiau dosbarth A1 ar gyfer cynnal canolfan fanwerthu. Adlewyrchir hyn yn Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio'n Cyflawni Dyfodol Gwydn a Mwy Disglair, Creu Lleoedd ac Adferiad Covid-19 (2020) Llywodraeth Cymru. Mewn perthynas â'r sector manwerthu, Creu Lleoedd ac Adferiad Covid-19, nodir, "Mae tystiolaeth yn awgrymu na fydd defnyddiau manwerthu traddodiadol mor gyffredin ac y bydd y galw am ofod manwerthu newydd yn isel iawn yn y dyfodol rhagweladwy, felly bydd angen adolygu ardaloedd manwerthu sylfaenol ar frys. Rhaid i hyn fod yn realistig ac ni wneir hynny gan ddisgwyl y bydd meddianwyr manwerthu yn dychwelyd yn y niferoedd a welwyd cyn y pandemig. Dylid herio polisiâu afresymol ac anhyblyg drwy broses y cynllun datblygu, gan y bydd angen llawer mwy o feddwl creadigol i ail-ddychmygu ac ail-bwrpasu'r ardaloedd hyn." (t.18, 2020). O ganlyniad, oherwydd y cyd-destun cenedlaethol presennol ac effeithiau parhaus Covid-19 ar y sector manwerthu, ystyrir ei bod yn rhesymol ac yn briodol i benderfyniadau Rheoli Datblygu fabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â chynigion newid defnydd lle ystyrir y byddai'r cynnig o fudd i'r ganolfan ac yn cyfrannu at fywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y ganolfan.

7.6.5. Felly, mae angen mwy o eglurder ar Bolisiâu MG14 ac MG15 er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr a swyddogion rheoli datblygu yn dehongli'r polisiâu'n gywir yng ngoleuni canllawiau polisi cenedlaethol. Fel y soniwyd eisoes, mae'r Cyngor wrthi'n paratoi CCA manwerthu newydd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr AMBau. Fodd bynnag, bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried y pwysau newidiol ar y sector manwerthu a disgwyliadau gwahanol siopwyr i sicrhau bod y canolfannau a nodwyd yn parhau i fod yn ddiendad ac yn hyfyw. Ystyrir y bydd y CCA Manwerthu yn ddigon i reoli'r newidiadau yn y sector manwerthu yn ystod y cyfnod interim rhwng Adolygu'r CDLI a mabwysiadu'r CDLI Newydd.

7.6.6. Fel rhan o'r CDLI Newydd, mae'r Cyngor yn bwriadu darparu sylfaen dystiolaeth gyfredol

ar y materion hyn at ddibenion rheoli datblygu drwy gomisiynu astudiaeth o anghenion manwerthu a fydd yn helpu i lywio'r broses o ddiwygio'r Cynllun o ran strategaeth fanwerthu, polisïau manwerthu a dyraniadau'r CDLI. Bydd gwaith pellach hefyd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r heriau presennol sy'n wynebu canolfannau manwerthu Tref, Ardal a Chymdogaeth y Fro i lywio sut y gall polisi CDLI y dyfodol ymateb yn fwyaf effeithiol.

## 7.7. TWRISTIAETH - POLISÏAU SP11, MG29 AC MD13

- 7.7.1. Mae'r adolygiad o'r polisïau twristiaeth SP11 ac MD13 yn dangos eu bod yn gweithio'n effeithiol. Mae Bro Morgannwg yn parhau i fod yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid ac mae'r sector hwn yn chwarae rhan bwysig yn yr economi leol, yn enwedig yng nghefn gwlad lle mae'n cyfrannu at arallgyfeirio gwledig. Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg, cyrchfannau glan môr traddodiadol fel Ynys y Barri a Phenarth, parciau gwledig a phentrefi gwledig hardd i gyd yn atyniadau pwysig i ymwelwyr. Mae Maes Awyr Caerdydd hefyd yn cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer cysylltedd cenedlaethol a rhyngwladol â thwristiaeth.
- 7.7.2. Mae'r Cyngor yn parhau i weld cynnydd yn y ceisiadau am gynigion twristiaeth yng nghefn gwlad ac mae'r Canllaw Cynllunio Atodol Twristiaeth a Datblygu a fabwysiadwyd yn rhoi eglurder pellach mewn perthynas â chynigion twristiaeth effaith isel cynaliadwy y cyfeirir atynt ym mholisïau MD13. Mae'r AMBau wedi tynnu sylw at faterion gyda'r safleoedd a ddyrannwyd o dan bolisi MG29 sydd hefyd wedi'u cynnwys yn adran 6 uchod. O ystyried hyn, bydd angen adolygu'r dyraniadau i gyd fel rhan o'r broses CDLI Newydd.

## 7.8. SEILWAITH TRAFNIDIAETH - POLISÏAU SP7 AC MG16

- 7.8.1. Mae'r adolygiad o bolisïau SP7 ac MG16 yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud hyd yma o ran cyflawni'r cynlluniau trafndiaeth a amlygwyd yn y polisïau ac a adlewyrchir yn y fframwaith monitro. Fel y nodwyd uchod, mae wyth cynllun trafndiaeth mawr wedi'u cyflawni erbyn targed monitro cychwynnol 2020, dau yn fwy na'r hyn a nodwyd yn y fframwaith monitro. Felly, nid oes unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch effeithiolrwydd a gweithrediad y polisïau a nodwyd.
- 7.8.2. Yn ogystal â'r cynlluniau strategol mae prosiectau eraill yn parhau ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud hefyd gyda nifer o gynlluniau'n sicrhau cyllid ar gyfer gwaith ymchwilio ac asesiadau WelTAG. Mae cyllid yn parhau i fod yn broblem wrth hyrwyddo prosiectau ac mae llawer o gynlluniau'n dibynnu ar dderbyn yr arian gofynnol gan Lywodraeth Cymru neu ffynonellau eraill i symud ymlaen.
- 7.8.3. Yn hyn o beth, mae cyfraniadau adran 106 o ddatblygiadau wedi galluogi i amrywiaeth o gynlluniau trafndiaeth gynaliadwy gael eu gweithredu a'u datblygu ledled Bro Morgannwg gan gynnwys cyfraniadau i gynllun trafndiaeth gymunedol Greenlinks, darparu llochesi bws, croesfannau newydd i gerddwyr a gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru a Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- 7.8.4. Mewn ymateb i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi paratoi cyfres o Fapiau Llwybrau Teithio Llesol presennol ac integredig sy'n ceisio hyrwyddo a gwella cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol yn ardal yr awdurdod lleol. Dylai'r adolygiad o'r cynllun ystyried sut y gellir darparu ar gyfer y newid tuag at flaenoriaethu teithio llesol drwy'r system gynllunio h.y. drwy gyfleoedd datblygu, polisi cynllunio a rhwymedigaethau cynllunio.



7.8.5. Er nad oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch effeithiolrwydd a gweithrediad polisïau trafndiaeth y CDLI, mae nifer o newidiadau cyd-destunol wedi digwydd ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu y bydd angen eu hystyried, yn enwedig cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021'. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth yng Nghymru. Nod canolog y strategaeth yw lleihau'r effaith y mae trafndiaeth yn ei chael ar newid yn yr hinsawdd, gan osod targed i 45% o'r holl deithiau yng Nghymru gael eu cyflawni'n gynaliadwy erbyn 2040. Er bod amcanion y CDLI eisoes yn ceisio mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd, bydd angen ystyried goblygiadau Strategaeth Drafndiaeth Cymru yn llawn yn yr adolygiad o'r cynllun yn ogystal â Cymru'r Dyfodol a diwygiadau i PCC sy'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, seilwaith gwyrdd a chyflawni'r agenda creu lleoedd drwy system gynllunio a chynnydd cynllun Metro De Cymru.

## 7.9. RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL - POLISIAU MD4, MG6, MG7, MG28

7.9.1. Mae Polisi MD4 yn galluogi ceisio seilwaith cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio, lle y bo'n briodol, gan roi sylw i hyfywedd datblygu. Diben y polisi yw sicrhau bod pob datblygiad newydd ym Mro Morgannwg yn cael ei gefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau priodol i fodloni ei anghenion ac anghenion y gymuned bresennol, er mwyn creu cymunedau diogel, cynaliadwy, ymarferol, iach a chymysg.

7.9.2. Mabwysiadwyd Canllaw Cynllunio Atodol 'Rhwymedigaethau Cynllunio' gan y Cabinet ar 31 Gorffennaf 2017 (a'i ddiwygio ym mis Gorffennaf 2018). Mae'n darparu canllawiau pellach mewn perthynas â Pholisi MD4, ac mae'n cynnwys manylion am y math o seilwaith y gallai fod ei angen ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau. Mae paragraffau ategol 7.29-7.32 Polisi MD4 yn derbyn efallai na fydd bob amser yn bosibl i ddatblygwyr fodloni'r holl ofynion rhwymedigaeth gynllunio, ac felly mae gwahaniaeth rhwng 'seilwaith hanfodol' a 'seilwaith angenrheidiol'.

7.9.3. Nododd y CDLI y byddai'r Cyngor yn paratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) ar gyfer Bro Morgannwg. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch dyfodol Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) a'r pwerau datganoledig a etifeddodd Llywodraeth Cymru i addasu'r is-ddeddfwriaeth bresennol ym mis Ebrill 2018, cytunodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg (ar 24 Ebrill 2017 Cofnod C3546), tan fod cyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru, y bydd cynnydd ar ASC ym Mro Morgannwg yn cael ei roi mewn dirymedd. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd drwy gytundebau adran 106 i sicrhau'r seilwaith angenrheidiol sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd fel y nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol.

7.9.4. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau rhwymedigaethau cynllunio drwy gytundebau Adran 106, ochr yn ochr â'r canrannau tai fforddiadwy gofynnol a nodir ym Mholisi MG4 a pholisïau eraill y cynllun (sy'n berthnasol ar adeg eu cymeradwyo) a CCAau. Mewn achosion lle nad yw hyn wedi'i gyflawni oherwydd hyfywedd, mae Polisi MD4 wedi galluogi'r Cyngor i negodi lefel rhwymedigaethau cynllunio/tai fforddiadwy, gan ystyried hyfywedd safleoedd sy'n deillio o gyfyngiadau safle neu ofynion seilwaith, er enghraifft.

7.9.5. Ers 2011 a dechrau cyfnod y Cynllun, sicrhawyd cyfanswm o £53.5 miliwn drwy Gytundebau Adran 106. Ers 2011, derbyniwyd cyfanswm o £41.86m, gan ddangos y

caniatadau a'r cyfraniadau ariannol Adran 106 a sicrhawyd, a droswyd mewn termau real. Gweler Tabl 16 isod:

Tabl 16: Nifer a Gwerth y cyfraniadau a sicrhawyd y flwyddyn 2011-2021

Blwyddyn Ariannol	Nifer y cytundebau a lofnodwyd	Swm a sicrhawyd	Swm a gafwyd
2011/12	18	£10,263,858.68	£37,136.00
2012/13	12	£511,873	£741,121.00
2013/14	22	£5,431,630.24	£632,818.64
2014/15	18	£3,876,452.81	£3,401,184.98
2015/16	21	£8,029,190	£2,603,788.40
2016/17	23	£9,794,952.16	£6,723,344.97
2017/18	28	£8,109,968.00	£5,210,619
2018/19	26	£3,538,708.00	£9,840,639.92
2019/20	24	£3,713,242.73	£10,471,766.77
2020/21	20	£310,404.80	£2,193,701.13

7.9.6. Mae'r rhwymedigaethau cynllunio a dderbynnir drwy'r safleoedd a ddyrannwyd (Polisi MG2) yn cynnwys y cyfraniadau ariannol ac "mewn nwyddau", yn ogystal â darpariaeth tai fforddiadwy. Mae'n amlwg o'r AMBau fod y rhan fwyaf o'r safleoedd a ddyrannwyd sydd wedi dod ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun wedi llwyddo i sicrhau rhwymedigaethau cynllunio a lefelau tai fforddiadwy sy'n cydymffurfio â pholisi.

7.9.7. Mae sawl cynllun wedi'u rhoi ar waith i gefnogi datblygiadau dros gyfnod y Cynllun gan ddefnyddio cyfraniadau ariannol a dderbyniwyd naill ai'n llawn neu fel arian cyfatebol. Rhestrir detholiad o gynlluniau a gyflawnwyd isod:

#### Addysg:

- Cymuned Ddysgu Penarth – cyfraniad tuag at Gynllun Strategol Band A yr 21ain Ganrif (Polisi MG6 (1)) – wedi'i gwblhau.
- Cymuned Ddysgu Llanilltud - cyfraniad tuag at Gynllun Strategol Band A yr 21ain Ganrif (Polisi MG6 (2)) – wedi'i gwblhau.
- Ysgol Gynradd Gwenfô – Meithrinfa newydd ac ailfodelu mewnol - wedi'i gwblhau
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid – Meithrinfa newydd ac ailfodelu mewnol – wedi'i gwblhau.
- Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph – meithrinfa a Chanolfan Ymyriadau Addysgol newydd - wedi'i gwblhau.
- Ysgol Gynradd y Wig ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Marcroes – meithrinfa newydd ac ailfodelu – wedi'i gwblhau.
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew – ystafell ddosbarth symudol newydd.
- Nifer o Brosiectau Band B yr 21ain Ganrif, gan gynnwys:
  - ysgol newydd yng Nglannau'r Barri (Polisi MG6 (3))
  - y cynnig i ad-drefnu addysg gynradd yn y Fro Orllewinol (Polisi MG 6 (6));
  - y cynnig i ehangu ac ail-adeiladu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant;
  - Ysgol Bro Morgannwg;

- Anghenion Addysgol Arbennig.

#### **Trafnidiaeth Gynaliadwy:**

- Greenlinks – gwasanaeth cludo bws cymunedol "ar alw" - [Cludiant Cymunedol Greenlinks](#)
- Port Road – Y Barri i Groes Cwrlwys - Cynllun Troedffordd/Beicio;
- Cynllun Gwella Sarn Ynys y Barri;
- Penlan Road, Llandochoau - Beicio/Troedffordd;
- Cynllun goleuo ar lwybr igam-ogam Penarth;
- Cynlluniau lloches bws (darpariaeth newydd a/neu wedi'i huwchraddio) yn Llandochoau, Penarth, Y Barri, Dinas Powys, Llanilltud Fawr, Ystradowen, Fferm Goch, Aberogwr, Gwenfô a Chroes Cwrlwys.
- Gwelliannau i lwybrau troed ar hyd y Brif Ffordd yn Aberogwr;
- Cynllun adfywio cynhwysfawr yn Windsor Road/Plassey Street, Penarth.

#### **Mannau Agored Cyhoeddus:**

- Mannau chwarae newydd a/neu well yn:
  - Ardal Chwarae Doehdwy, Llandochoau;
  - Parc Wordsworth, Penarth;
  - Trebefered, Llanilltud Fawr;
  - Nant y Moch Daear, Ystradowen;
  - Sgwâr Plassey, Penarth;
  - Paget Road, Penarth (gan gynnwys Ardal Gemau Amldeffnydd newydd);
  - Lougher Place, Sain Tathan (gan gynnwys Ardal Gemau Amldeffnydd newydd);
  - Ceri Road, Y Rhws;
- Parc sglefrio newydd yng Nghanolfan Hamdden Cogan, Penarth;
- Ardal Gemau Amldeffnydd Newydd yng Nghaeau Chwarae'r Brenin Siôr V, Llandochoau
- Uwchraddio cynhwysfawr i Erddi Gladstone Uchaf ac Isaf – gan gynnwys Ardal Gemau Aml-ddeffnydd newydd, Offer Campfa, Gwelliannau Bioamrywiaeth, Tirlunio ac Ardal Chwarae.
- Prosiect gardd gymunedol yn Ysgol Gynradd Oakfield ac Ysgol Gwaun y Nant;

#### **Cyfleusterau Cymunedol:**

- Gwelliannau yn Neuadd Bentref Llan-gan – wedi'i gwblhau.
- Neuadd Bentref Ystradowen – cymorth ariannol tuag at estyniad ar gyfer canolfan ddigidol – wedi'i gwblhau.
- Creatorspace yn Llyfrgell Penarth – wedi'i gwblhau.
- Gweithredu'r POD Cymunedol, Penarth - wedi'i gwblhau.
- Neuadd Bentref ac Ardal Chwarae Aberogwr – bron wedi'i gwblhau. (Polisi MG7 (3))

7.9.8. Mae'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn llwyfan llwyddiannus i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol, a Chynghorau Tref a Chymuned wneud cais am arian grant i gynorthwyo gyda phrosiectau ledled Bro Morgannwg. Mae hefyd yn darparu mecanwaith arall i wario cyfraniadau Adran 106 drwy weithio mewn partneriaeth i ddarparu cyfleusterau a seilwaith cymunedol mewn partneriaeth ag eraill. Drwy'r platfform hwn, mae Adran 106 wedi cefnogi nifer o grwpiau/cynlluniau, gan gynnwys:

- Gwyllt am Natur Dinas Powys (menter addysgol a bioamrywiaeth sy'n arwain at welliannau i'r dirwedd ledled Dinas Powys);

- Canolfan Gymunedol "Y Bont Rhyngom" Eglwys Unedol y Barri – cyfraniad tuag at ganolfan gymunedol newydd yng Nglannau'r Barri.
- Eglwys San Pedr, Y Rhws - canolfan gymunedol newydd yn cael ei hadeiladu yn y pentref.
- Clwb Criced Dinas Powys - tuag at offer a chyfleusterau newydd ar gyfer y clwb criced;
- Clwb Tennis Llanilltud – cyfraniad tuag at oleuadau allanol a ffensys newydd mewn cyrtiau tenis;
- Clwb Sgowtiaid y Bont-faen - cyfraniad tuag at uwchraddio'r adeilad yn fewnol i'w wneud yn aml-ddefnydd;
- Clwb Sgowtiaid Dinas Powys - tuag at estyniad i'r Neuadd Sgowtiaid bresennol
- Clwb beicio addasol y Fro – cyfraniad i ddarparu 3 chylch addasol arbenigol: Beic Tandem Cadair Olwyn Deuol Trydanol, Beic Tandem Ochr yn Ochr Trydanol a Threic Bwled Anghenion Arbennig Tomcat i fodloni anghenion eu cyfranogwyr i feicio.

7.9.9. Yn gyffredinol, o ystyried y dystiolaeth, ystyrir bod Polisi MD4 yn gweithio'n effeithiol, gyda chefnogaeth y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a fabwysiadwyd. Bydd yr Adolygiad o'r CDLI yn rhoi cyfle i adolygu hyfywedd datblygiad, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, megis Draenio Trefol Cynaliadwy a Seilwaith Gwyrdd.

#### 7.10. POLISÏAU BIOAMRYWIAETH A'R AMGYLCHEDD - SP10, MG17, MG18, MG19, MG20, MG21, MG27, MD9

7.10.1. Mae'r CDLI yn cynnwys nifer o bolisïau (y cyfeirir atynt uchod) sy'n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a thirweddau a nodweddion pwysig Bro Morgannwg yn cael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol.

7.10.2. Cafodd polisïau bioamrywiaeth ac amgylcheddol y CDLI eu llywio gan amrywiaeth o bapurau cefndir a thystiolaeth a oedd yn nodi ansawdd, maint a chwmpas y dynodiadau a gynhwyswyd yn y Cynllun mabwysiedig. Llywiwyd y CDLI ymhellach gan Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), a'i ddiben yw asesu effeithiau cynllun defnydd tir, ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill, yn erbyn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodwyd ar gyfer eu statws ecolegol) a chanfod ar ôl sgrinio beth sydd angen Aseiad Priodol (AP). Bydd angen i'r adolygiad o'r CDLI gynnwys adolygiad o'r papurau cefndir technegol a'r sylfaen dystiolaeth gan gynnwys yr ARhC i ganfod a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r dynodiadau.

7.10.3. Yn gyffredinol, mae'r AMBau wedi cadarnhau bod polisïau amgylcheddol y Cynllun yn gweithio'n effeithiol ac er bod rhywfaint o ddatblygiad wedi digwydd o fewn dynodiadau fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Lletemau Gwyrdd a Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, mae'r rhain ar raddfa fach ar y cyfan ac yn gysylltiedig â datblygiad presennol - nid ydynt wedi cael effaith andwyol ar y nodweddion, rhinweddau neu nodweddion y gwnaed y dynodiadau ar eu cyfer.

7.10.4. Ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu, mae'r fersiwn ddiweddaraf o PCC wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar rôl a phwysigrwydd bioamrywiaeth o fewn y system gynllunio. Yn dilyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, cyflwynwyd dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau (dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu holl swyddogaethau.

7.10.5. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd o fewn PCC hefyd yn berthnasol mewn perthynas ag adolygiad y Cynllun. Yn hyn o beth, bydd y gofyniad newydd a nodir yn PCC ar gyfer Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) yn galluogi dull cyfannol o gynllunio a darparu rhwydwaith o fannau gwyrdd sy'n darparu manteision amlswyddogaethol ar draws ystod o feysydd gan gynnwys yr economi, iechyd a lles. Defnyddir papurau cefndir technegol perthnasol wedi'u diweddarau ynghyd ag elfennau eraill o'r gwaith ASG i lywio polisiâu'r cynllun a geiriad polisi ac i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu cydnherthedd ecolegol, a gwella canlyniadau lles.

#### 7.11. DYLUNIO – POLISIÂU MD1, MD2, MD3, MD5, MD6

7.11.1. Mae Polisi MD1 yn nodi'r fframwaith ar gyfer asesu cynigion ar safleoedd heb eu dyrannu ac yn cyfeirio datblygiadau newydd i leoliadau cynaliadwy. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod tir ac adeiladau'n cael eu defnyddio a'u haildefnyddio'n effeithlon ac y caiff adnoddau pwysig eu rheoli'n effeithiol. Mae'r AMBau yn cadarnhau bod y polisi'n gweithio'n dda ar y cyfan er y cydnabyddir bod rhywfaint o orgyffwrdd â pholisiâu MD eraill yn arbennig polisi MD2.

7.11.2. Mae Polisi MD2 yn ymwneud â dylunio datblygiadau newydd a bydd angen ei adolygu yn y CDLI Newydd i adlewyrchu pwysigrwydd greu lleoedd a newid yn yr hinsawdd. Mae Polisi MD3 yn nodi'r math o ddatblygiadau y mae angen iddynt ddarparu mannau agored lle nodir yr angen. Mae'r AMBau yn datgan bod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau mannau agored newydd neu well ar nifer sylweddol o safleoedd drwy gyfraniadau adran 106. Yn ogystal, gwnaed cynnydd da ar y dyraniadau mannau agored cyhoeddus a nodwyd ym Mholisi MG28.

7.11.3. Mae Polisi MD5 yn ymwneud â chynigion datblygu o fewn ffiniau aneddiadau, a nodir bod rhywfaint o orgyffwrdd â Pholisi MD2. Er gwaethaf hyn, mae'r AMBau yn dangos bod y polisi wedi bod yn gweithio'n effeithiol a'i fod wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran diogelu cyfleusterau cymunedol presennol mewn ardaloedd lle nodwyd angen.

7.11.4. Mae Polisi MD6 yn pennu dwyseddau tai gofynnol mewn gwahanol fathau o aneddiadau er mwyn sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r AMBau yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o geisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â'r gofynion dwysedd yn y polisi a dim ond pan fyddant yn bodloni'r meini prawf penodedig y caniateir datblygiadau dwysedd is. Felly, ystyrir bod Polisi MD6 yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen adolygu'r polisi yng ngoleuni'r isafswm o 50 o anheddau fesul hectar mewn ardaloedd trefol a nodir yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

#### 7.12. MWYNAU – POLISIÂU MG22, MG23, MG24, MG25 AC MG26

7.12.1. Paratowyd polisiâu Mwynau y CDLI yng nghyd-destun Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (GARhDC) (Hydref 2008). Mae ail Adolygiad o'r DTRh bellach wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan Gyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried goblygiadau'r argymhellion yn yr ail Adolygiad o'r DTRh ynghyd ag unrhyw newidiadau yng nghanllawiau presennol y Llywodraeth. Mae'n ofynnol i Fro Morgannwg drwy'r broses CDLI fodloni'r dosraniad a nodir yn y DTRh. Ar gyfer Bro Morgannwg, mae'r gofyniad hwn wedi'i osod ar 16.806MT o graig gywasgedig dros 25 mlynedd. Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod 18.730MT o fanc tir o gronfeydd a ganiateir ar gyfer craig gywasgedig sy'n golygu bod digon o ddarpariaeth feintiol i fodloni'r dosraniad a nodwyd. Mewn perthynas â

chronfeydd tywod a graean, nid oes gan Fro Morgannwg unrhyw weithfeydd tywod a graean gweithredol na chronfeydd a ganiateir i'w rhoi tuag at y gofyniad tywod a graean, felly cyfanswm y gofyniad yw 16.806MT o graig gywasgedig. Nid oes gofyniad am dywod a graean ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, os yw'r CDLI diwygiedig yn cynnwys dyraniadau newydd, bydd angen ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y cronfeydd mwynau yn yr awdurdod. Bydd hyn yn sail i Bapur Cefndir Mwynau wedi'i ddiweddarau.

- 7.12.2. Yn ogystal, mae'r ail Adolygiad o'r DTRh yn caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol wroddi wrth y dosraniad mewn amgylchiadau eithriadol a lle y gellir cyfiawnhau hynny drwy dystiolaeth newydd wrth baratoi eu CDLIau. Os ystyrir bod dystiolaeth newydd yn cynyddu'r dosraniad, mae'r DTRh yn ei gwneud yn ofynnol i'r dosraniad gael ei fodloni drwy ddyrannu safleoedd penodol neu, pe fetha hynny, ardaloedd a ffefrir. Os, fel dewis olaf, mai dim ond Ardaloedd Chwilio eang y mae'n bosibl eu nodi, dylai'r rhain fod yn ddigonol i gynnig symiau mwy o lawer er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd dan sylw. Fodd bynnag, pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwyro oddi wrth ddostraniad y DTRh, byddai angen iddo ddangos na fyddai gwyro oddi wrth y DTRh yn tansellio strategaeth gyffredinol y DTRh. Gellir dangos hyn drwy weithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill o fewn yr is-ranbarthau a nodwyd i sicrhau bod y cyfansymiau DTRh is-ranbarthol a rhanbarthol yn dal i gael eu cyflawni. Byddai angen adlewyrchu hyn yn y Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol (DGIR).
- 7.12.3. O ganlyniad, rhaid i DGIR gael ei baratoi gan bob ACLI o fewn is-ranbarth fel rhan o sylfaen dystiolaeth CDLI diwygiedig. Yn ogystal â'r DGIR, bydd angen i adolygiad CDLI Bro Morgannwg hefyd ddiogelu adnoddau agregol sylfaenol. Bydd hyn yn golygu y dylid diogelu adnoddau perthnasol o agregau craig gywasgedig a thywod a graean ar y tir o fewn y CDLI, yn unol â chynghor manwl yn seiliedig ar y defnydd o fapio Arolwg Daearegol Prydain.
- 7.12.4. Mae Polisi MG22 – Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau yn ceisio sicrhau nad yw mwynau posibl y gellid eu hechdynnu yn y dyfodol yn cael eu sterileiddio oherwydd datblygiad annisgwyl. Ers dechrau monitro yn 2018, mae 447 o geisiadau wedi'u cymeradwyo mewn ardaloedd diogelu mwynau. Fodd bynnag, mae'r holl gymeradwyaethau wedi bod yn unol â'r meini prawf ym Mholisi MG22 a'r CCA Diogelu Mwynau. Roedd y geisiadau a gymeradwywyd yn yr ardaloedd diogelu yn ymwneud yn bennaf â datblygiadau ar raddfa fach sy'n gysylltiedig ag eiddo preswyl neu ffermydd unigol presennol a ganiateir o dan bolisi cynllunio. Felly, ystyrir bod Polisi MG22 yn gweithio'n briodol, fodd bynnag, bydd angen cynnal adolygiad o Fapiau Diogelu Mwynau ADP fel rhan o'r CDLI diwygiedig i bennu a yw'r ardaloedd hyn wedi aros yr un fath neu a oes angen eu diweddarau.
- 7.12.5. O ran Polisi MG23 – Clustogfeydd Chwarel, mae 15 o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn yr ardaloedd hyn ers dechrau monitro yn 2018. Fodd bynnag, cymeradwywyd yr holl geisiadau hyn yn unol â Pholisi MG23 ac roeddent yn ymwneud â chynigion i amrywio amodau datblygiadau presennol, cynigion deiliaid tai a oedd yn ymwneud â datblygiad preswyl presennol neu nid ystyriwyd y datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad sensitif o fewn y diffiniadau a geir yn MTAN1 – Agregau. O ganlyniad, ystyrir bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Nodir y gallai fod angen diweddarau'r clustogfeydd chwarel er mwyn adlewyrchu newidiadau i waith mewn chwareli gweithredol ym Mro Morgannwg neu i ddarparu ar gyfer gwaith chwarela newydd sydd ei angen fel rhan o'r CDLI Newydd.
- 7.12.6. Mewn perthynas â Pholisi MG24 – Safleoedd Mwynau Segur, nid oes unrhyw safleoedd wedi ail-ddechrau gwaith mwynau. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgymryd â'r broses o

gyflwyno gorchmynion gwahardd ar y safleoedd segur a restrir ym Mholisi MG24. Fodd bynnag, mae hyn yn destun proses gyfreithiol hir, felly, yn dibynnu ar gynnydd y broses gorchmyn gwahardd, efallai y bydd angen cynnwys polisi ar safleoedd segur o fewn y CDLI Newydd.

- 7.12.7. Nid yw Polisi MG25 – Gweithio Mwynau (gan gynnwys Echdynnu Olew a Nwy) yn rhan o'r fframwaith monitro. O ganlyniad, bydd angen ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o'r CDLI Newydd i bennu effeithiolrwydd y polisi yn ogystal â diweddarau unrhyw newidiadau perthnasol o fewn polisi a chanllawiau cenedlaethol.

### 7.13. YNNI ADNEWYDDADWY - POLISIŌAU MG30 AC MD19

- 7.13.1. Roedd y polisiâu ynni adnewyddadwy yn y Cynllun yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd fel rhan o Bapur Cefndir yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (2016). Diweddarodd y ddogfen hon y sefyllfa o Asesiad Ynni Adnewyddadwy cynharach a gynhaliwyd ar gyfer Bro Morgannwg yn 2013 yn dilyn cyhoeddi Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Llywodraeth Cymru (2015) - pecyn cymorth i gynllunwyr.
- 7.13.2. Ystyriodd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy botensial ynni adnewyddadwy ym Mro Morgannwg yng nghyd-destun daearyddiaeth leol ac argaeledd tir. Mae'r asesiad yn defnyddio ystadegau, setiau data a gwybodaeth ddaearyddol arall a nodir ym Mhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru. Paratoir yr asesiad yng nghyd-destun targedau'r DU gyfan hyd at 2020, a nodir yn Strategaeth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth y DU (2009), ac mae'n cymharu'r potensial a aseswyd yn erbyn y strategaeth hon ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r CDLI, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau eu targedau eu hunain ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phontio i economi carbon isel. Felly, byddai angen i'r CDLI Newydd gynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i ddiweddarau neu gynhyrchu Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) sy'n cyfrif am newidiadau o fewn y strategaeth a'r targedau adnewyddadwy cenedlaethol. Byddai hyn yn unol â PCC sy'n nodi "Gan ddefnyddio CYAL neu dystiolaeth arall o'r cynllun datblygu, dylai awdurdodau lleol nodi targedau heriol ond cyraeddadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau a strategaethau lleol/rhanbarthol neu gynlluniau datblygu." (PCC, para.5.9.5, 2021).
- 7.13.3. O ran effeithiolrwydd y polisiâu presennol o fewn y CDLI ar gyfer cyrraedd y targedau gwreiddiol a nodir ym Mhapur Cefndir yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy, nid oes unrhyw ddatblygiad solar wedi'i gyflwyno yn yr ardaloedd chwilio solar a nodwyd. Fodd bynnag, mae 28 o geisiadau wedi'u cymeradwyo dros gyfnod presennol y cynllun a amlygir yn Nhabl 17 isod:

Tabl 17: Capasiti Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Gymeradwywyd dros Gyfnod y Cynllun

Rhif y Cais	Dyddiad Cymeradwyo	Math o Ynni	Capasiti wedi'i Osod
2014/00081/FUL	01/08/2014	Solar	7
2014/00798/FUL	21/11/2014	Solar	6
2014/01036/FUL	21/05/2015	Solar	0.15
2014/01089/FUL	19/12/2014	Solar	10
2014/01490/FUL	15/05/2015	Solar	5
2015/00026/FUL	05/06/2015	Solar	2.2
2015/00218/FUL	31/07/2015	Solar	5
2015/00573/FUL	02/10/2015	Solar	5

2015/00600/FUL	17/08/2015	Solar	0.15
2015/00632/FUL	04/09/2015	Solar	5
2015/00782/FUL	20/11/2015	Solar	2
2015/00852/FUL	14/01/2016	Solar	3
2016/00779/FUL	30/09/2016	Solar	3
2016/01446/FUL	01/02/2017	Solar	1
2019/01314/FUL	26/03/2020	Solar	1.4
2020/00575/FUL	11/09/2020	Solar	0.1
2020/01275/FUL	10/03/2021	Solar	5.5
<b>Hafaliad Ffactor Capasiti</b>	<b>55.9 MWe x 0.1 x 365 x 24 = 53,874 MWh</b>		
2013/00633/FUL	22/11/2013	Gwynt	1
2014/00257/FUL	09/06/2014	Gwynt	1
2014/00812/FUL	16/01/2015	Gwynt	0.5
2016/01202/FUL	05/12/2016	Gwynt	0.8
<b>Hafaliad Ffactor Capasiti</b>	<b>3.3 MWe x 0.27 x 365 x 24 = 7,805.16 MWh</b>		
2016/00725/RG3	21/10/2016	Boeler Biomass	0.15
2017/01203/FUL	08/06/2018	XXX	7.59
2020/01434/FUL	25/01/2021	Boeler Biomass	0.15
2020/00482/FUL	15/09/2020	Boeler Biomass	0.44
2020/00252/FUL	06/07/2020	Boeler Biomass	1
2020/00106/FUL	18/08/2020	Boeler Biomass	0.24
2020/00090/FUL	13/07/2020	Boeler Biomass	0.17
<b>Hafaliad Ffactor Capasiti</b>	<b>9.74 MWt x 0.2 x 365 x 24 = 17,064.48 MWh</b>		

7.13.4. Mewn perthynas â'r targed monitro ar gyfer capasiti ynni adnewyddadwy ym Mro Morgannwg, mae'r tabl uchod yn dangos bod y datblygiadau cymeradwy ar gyfer ynni adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu trydan yn ystod cyfnod y Cynllun yn hafal i 61.68 GWh, sy'n cyfateb i 11.53% o'r galw cyffredinol am drydan a ragwelir drwy ffynonellau adnewyddadwy. Mae hyn yn uwch na'r targed monitro a amlinellir yn y CDLI o 10.6% (yn seiliedig ar y galw trydan rhagamcanol o 535 GWh erbyn 2026) o'r galw cyffredinol am drydan a ragwelir drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae hefyd yn dangos twf cyson mewn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy ym Mro Morgannwg ers y cyfnod AMB diwethaf.

7.13.5. O ran y targed monitro ar gyfer ynni gwres, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 17.06GWh o ynni gwres o ffynonellau adnewyddadwy yn ystod cyfnod y cynllun sy'n cyfateb i 1.12% o'r galw am wres a ragwelir erbyn 2026 (1,524 GWh). Mae targed monitro'r CDLI yn ceisio sicrhau bod 0.74% o'r galw am wres yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 sy'n cyfateb i 11.28 GWh. Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd targed 2020 ar gyfer cynhyrchu gwres o ffynonellau adnewyddadwy eto. Dylid nodi bod cais 2017/01203/FUL sy'n ymwneud â chyfleuster treulio anaerobig ar Waith Trin Dŵr Gwastraff Cog Moors wedi'i hepgor mewn camgymeriad o'r AMB cyntaf a'r ail, ond mae wedi'i gynnwys yn yr AMB diweddaraf a chynyddu cynhyrchiant ynni gwres ym Mro Morgannwg yn sylweddol.

7.13.6. O ganlyniad, ystyrir bod Polisi MD19 – Cynhyrchiant Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy wedi bod yn effeithiol o ran darparu datblygiadau adnewyddadwy annisgwyl ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, fel y nodwyd, ystyrir bod angen adolygiad o'r dystiolaeth gefndir i'r polisiau ynni adnewyddadwy er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys mwy o ffocws ar ddarparu rhwydweithiau gwres a nodir o dan Bolisi 16 – Rhwydweithiau Gwres Cymru'r Dyfodol: Cynllun Datblygu Cenedlaethol 2040.



## 7.14. GWASTRAFF – POLISI'AU SP8 AC MD20

- 7.14.1. Paratowyd polisi gwastraff y CDLI yng nghyd-destun Strategaeth Wastraff Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010) a Chynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (SCSM) (2012). Mae'r Cynllun SCSM yn nodi'r anghenion capasiti ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ledled Cymru. Ar gyfer ardal de-ddwyrain Cymru, mae'r cynllun yn cynnwys gofyniad am gyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol sy'n gallu delio â rhwng 421,000 a 871,000 tonnall erbyn 2024-2025.
- 7.14.2. O ran capasiti gwastraff trefol yn ystod cyfnod y cynllun, ffurfiodd nifer o awdurdodau lleol y de-ddwyrain (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) y bartneriaeth Prosiect Gwyrdd. Ym mis Ebrill 2016, cytunodd yr awdurdodau partner ar gontract gyda Viridor i ddatblygu cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni (TGyY). Datblygwyd hwn gyda'r gallu i drin 350,000 tonnall o wastraff gweddilliol y flwyddyn. O hyn, daw 170,000 tonnall y flwyddyn ar gyfartaledd gan yr awdurdodau partner.
- 7.14.3. O ran gwastraff bwyd, ymrwymodd Bro Morgannwg ochr yn ochr â Chaerdydd i gontract 15 mlynedd gyda Kelder Organic Energy, a oedd yn cynnwys comisiynu cyfleuster Treulio Anaerobig yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Dwyrain Caerdydd (35,000tpa) a chyfleuster compostio ffenestr agored yn Ffordd Lamby, Caerdydd (38,000tpa) a ddechreuodd wasanaethu ym mis Mawrth 2017.
- 7.14.4. Yn ogystal â'r cyfleusterau rheoli gwastraff a rennir uchod, ers 2011, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo nifer o ddatblygiadau rheoli gwastraff lleol, gan gynnwys cyfleuster adfer adnoddau y mae'r Cyngor yn berchen arno yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd a nodir ym Mholisi SP9 fel un o'r lleoliadau a ffeirir ar gyfer cyfleusterau o'r fath ym Mro Morgannwg, ochr yn ochr â phorthladd gweithredol Dociau'r Barri ac Ystâd Fasnachu Llandochoau. Mae darparu'r cyfleuster hwn ochr yn ochr â chyfleusterau cymeradwy eraill yn dangos bod Polisi SP8, ochr yn ochr â Pholisi MD20 yn y CDLI mabwysiedig wedi bod yn gweithio'n effeithiol.
- 7.14.5. Mae PCC (paragraff 5.13.8) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu ddangos sut y mae polisi gwastraff cenedlaethol (ac yn arbennig y Cynllun SCSM) ynghyd ag unrhyw sefyllfa wedi'i diweddarau a fabwysiadwyd yn yr adroddiadau monitro cynllunio gwastraff ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'w hardal leol, wedi'u hystyried. Mae PCC hefyd yn cynnal y safbwynt polisi y dylai CDLIau nodi lleoliadau addas ar gyfer darparu seilwaith gwastraff i gefnogi newid tuag at gylcholdeb deunyddiau ochr yn ochr â meini prawf ar gyfer asesu cynigion ar gyfer cyfleusterau newydd.
- 7.14.6. Bydd angen i'r adolygiad o'r Cynllun sicrhau ei fod yn ystyried newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a'r sylfaen dystiolaeth sy'n esblygu, gan gynnwys unrhyw newidiadau i dargedau ailgylchu cenedlaethol a'r angen i ddarparu unrhyw gyfleusterau ailgylchu rheoli gwastraff ychwanegol dros gyfnod estynedig y cynllun hyd at 2036.
- 7.14.7. Mae Polisi MD 20 yn darparu'r meini prawf ar gyfer asesu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn unol ag SP1, ac mae'r canlyniadau monitro yn dangos bod fframwaith polisi'r CDLI yn gweithio'n effeithiol.

## 7.15. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL

7.15.1. Ers mabwysiadu'r cynllun, mae nifer o ddogfennau canllaw cynllunio atodol (CCA) wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor i gefnogi meysydd polisi allweddol y CDLI. Y rhain yw:

- Tai Fforddiadwy
  - Bioamrywiaeth a Datblygu
  - Maes Awyr Caerdydd a Pharth Datblygu'r Porth
  - Trawsnewid ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig
  - Gwarchod Mwynau
  - Safonau Parcio
  - Rhwymedigaethau Cynllunio
  - Celf Gyhoeddus mewn Datblygiadau Newydd
  - Datblygiad Preswyl a Deiliaid Tai
  - Ynni Adnewyddadwy
  - Datblygu Twristiaeth a Hamdden
  - Cynlluniau Teithio
  - Coed, Coetiroedd, Gwrychoedd a Datblygu
- 
- Mae'r Cyngor hefyd wedi paratoi'r CCAau canlynol a rhagwelir y byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021:
  - Bioamrywiaeth a Datblygu (wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu Dyletswydd Adran 6)
  - Dylunio yn y Dirwedd
  - Creu Lleoedd Iach
  - Manwerthu a Chanol Trefi
  - Lleoliadau a Safleoedd Cyflogaeth
  - Datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth

7.15.2. Bydd adolygiad o'r CCAau presennol yn cael ei gynnal fel rhan o broses Adolygu'r CDLI pan fo amser y caniatáu. Bydd yr angen am CCAau ychwanegol hefyd yn fater i'r broses CDLI Newydd.

## 7.16. MAP CYNIGION A MAP CYFYNGIADAU

7.16.1. Bydd ffurf a chynnwys Map Cynigion y CDLI yn gofyn am newidiadau fel rhan o Adolygiad y CDLI i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r Cynllun.

7.16.2. Mae Map Cyfyngiadau'r CDLI yn cynnwys dynodiadau sy'n gyfyngiadau posibl ar ddatblygiadau a grëwyd gan ddeddfwriaeth neu fecanweithiau eraill y tu allan i'r broses CDLI megis Ardaloedd Perygl Llifogydd a SoDdGAau, ac ati. Mae'r Map Cyfyngiadau a gyhoeddwyd yn cynrychioli pwynt mewn amser ac yn cynnwys sawl dynodiad mewn ardaloedd perygl llifogydd penodol sydd wedi'u diweddarau ers mabwysiadu'r CDLI - felly, mae wedi dyddio. Yn ogystal â map printiedig, bydd y Map Cyfyngiadau, ochr yn ochr â'r Map Cynigion, yn cael ei gynhyrchu ar ffurf electronig gyda mynediad cyhoeddus a fydd yn caniatáu iddo gael ei ddiweddarau, yn ôl yr angen.

## 8. GOFYNION SYLFAEN DYSTIOLAETH Y DYFODOL

- 8.1.1. Mae'r newidiadau yn y sylfeini cyd-destunol a thystiolaeth sydd wedi digwydd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn 2017, gan gynnwys diweddariadau i amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru, yn dangos y bydd angen diwygio'r CDLI Newydd i adlewyrchu newidiadau o'r fath.
- 8.1.2. Bydd angen diweddarau gwahanol elfennau o'r sylfaen tystiolaeth a lywiodd y Cynllun Datblygu Lleol presennol er mwyn deall gofynion defnydd tir Bro Morgannwg yn llawn hyd at 2036. Bydd y rhain yn cynnwys materion fel rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd, asesiadau o anghenion cyflogaeth a manwerthu, asesiad o'r farchnad dai leol, Asesiad Seilwaith Gwyrdd, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, hyfywedd tai fforddiadwy, asesiad strategol o berygl llifogydd a seilwaith cymunedol.

### 8.2. ARFARNIAD CYNALIADWYEDD GAN GYNNWYS YR ASESIAID AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

- 8.2.1. Mae Asesiad Cynaliadwyedd (AC) sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn un o'r gofynion statudol o baratoi CDLI. Mae'n rhan annatod o ddatblygiad y CDLI i sicrhau bod y polisiau yn y Cynllun yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy integreiddio'r amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol wrth ddatblygu polisiau a chynigion y CDLI a'u bod yn ystyried unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'r AC/AAS wedi bod yn broses ailadroddol drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI mabwysiedig ac mae'r polisiau a chynigion yn adlewyrchu hyn.
- 8.2.2. Monitir Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn flynyddol ac adroddir arno yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu i ba raddau y mae'r CDLI yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac i nodi unrhyw bryderon.
- 8.2.3. Bydd angen adolygiad trylwyr o'r AC/AAS i ystyried y newidiadau cyd-destunol ehangach o ran polisi a chanllawiau cenedlaethol fel y nodir uchod a newidiadau a diweddariadau i'r wybodaeth sylfaenol a fydd yn cael ei pharatoi fel rhan o broses adolygu'r CDLI. Bydd Adroddiad Cwmpasu'r AC yn cael ei adolygu yn unol â hynny, gan gynnwys methodoleg a fframwaith monitro'r AC. Bydd hefyd angen ystyried integreiddio gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Iechyd mewn un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Bydd y broses ACI yn cydreddeg â'r broses o lunio'r cynllun ac yn rhan ailadroddol o baratoi'r CDLI.

### 8.3. ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

- 8.3.1. Llywiwyd y CDLI gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), a'i ddiben yw asesu effeithiau cynllun defnydd tir, ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill, yn erbyn amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd o bwys cadwraeth natur rhyngwladol, fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (a ddynodwyd ar gyfer eu statws ecolegol) a chanfod ar ôl sgrinio beth sy'n gofyn am Asesiad Priodol (AP). Bydd angen adolygu'r ARhC fel rhan o'r broses CDLI Newydd.

## 9. OPSIYNAU I'W HADOLYGU

- 9.1.1. Un o ganlyniadau allweddol yr Adroddiad Adolygu terfynol yw gwneud argymhelliad ar y math o broses adolygu i'w dilyn, yn seiliedig ar y dystiolaeth yn yr adroddiad. Gall hyn naill ai fod yn ffurf fer neu'n adolygiad llawn.
- 9.1.2. Mae'r Adroddiad Adolygu Drafft hwn yn ffurfio dogfen drafod i geisio barn rhanddeiliaid ar y ffordd orau i fwrw ymlaen. Nodir casgliad ar ffurf yr adolygiad yn adran 10.

## 9.2. CDLLAU AR Y CYD A CHYDWEITHIO

- 9.2.1. Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, rhaid ystyried y posibilrwydd o baratoi CDLI ar y Cyd ag ACLI arall. Nodir, o'r 10 awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, nad oes unrhyw enghreifftiau o CDLI ar y cyd wedi'u cynnal. Mae pob awdurdod lleol yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru wedi symud ymlaen gyda'u hadolygiadau CDLI ac maent ar gamau gwahanol iawn yn y broses. O'r herwydd, ystyrir nad yw paratoi cynllun ar y cyd ag awdurdodau cyfagos yn briodol oherwydd diffyg synergedd ar agweddau allweddol ar baratoi cynlluniau. Mae gan bob awdurdod ffactorau unigryw i'w hystyried yn ei gynllun ei hun na fyddai'n elwa o ddull gweithredu ar y cyd.
- 9.2.2. Er hynny, mae cyfleoedd clir i gydweithio o fewn y rhanbarth. Lle mae cyfleoedd wedi codi, mae Bro Morgannwg drwy Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC) wedi manteisio ar y cyfle i gomisiynu gwaith ar astudiaethau rhanbarthol fel safleoedd trawsteithiol sipsiwn a theithwyr ac asesiad strategol o berygl llifogydd. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar y cyd lle mae cyfleoedd yn codi i sicrhau cysondeb lle y bo'n briodol ac i sicrhau bod materion trawsffiniol yn cael sylw digonol.
- 9.2.3. Ystyrir felly mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen i Fro Morgannwg yw paratoi ei CDLI Newydd ei hun a, lle bynnag y bo'n bosibl, gynhyrchu a rhannu sylfaen dystiolaeth ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol.

## 10. CASGLIADAU A CHAMAU NESAF

### 10.1. CASGLIADAU

10.1.1. Yn gyffredinol, ystyrir bod strategaeth y CDLI yn parhau i fod yn berthnasol. Mae wedi bod yn effeithiol o ran hyrwyddo cyfleoedd datblygu yn anheddiad allweddol y Barri ac mewn aneddiadau trefol eraill ym Mharth y De-ddwyrain. Mae adfywiad parhaus Glannau'r Barri wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran darparu cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys tai, cyflogaeth, manwerthu a hamdden yn ogystal â seilwaith newydd. Mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan wedi denu mewnfuddsoddiad newydd sylweddol i Fro Morgannwg a bydd yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol yn y CDLI Newydd. Mae twf ychwanegol yn yr aneddiadau cynaliadwy hefyd wedi helpu i ledaenu manteision datblygiadau newydd yn fwy cyfartal ar draws yr awdurdod a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol presennol. Ar ôl adolygu'r polisïau sy'n seiliedig ar yr AMBau blaenorol ac ymgynghori mewnol â'r tîm rheoli datblygu, ystyrir bod y mwyafrif yn gweithio'n effeithiol. Felly, bydd angen i'r CDLI Newydd ystyried canfyddiadau'r tri AMB, newidiadau cyd-destunol a pholisi, sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddarau ac anghenion y Fro hyd at 2036 yn y dyfodol, gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth.

### 10.2. ARGYMHELLIAD

10.2.1. O ran y llwybr gweithdrefnol ar gyfer y CDLI Newydd, dylid nodi bod y Cynllun bellach yn destun yr adolygiad llawn statudol 4-blynedd, ac felly, bydd angen asesu pob agwedd ar y cynllun i ystyried a ydynt yn parhau'n gadarn ac yn addas i'r diben. Ystyrir, waeth beth fo'r dyddiad cau ar gyfer adolygu a bennir gan ddeddfwriaeth, mai'r dull mwyaf priodol o adolygu, yn seiliedig ar yr adroddiad hwn, yw'r Gweithdrefn Adolygu Lawn ac argymhellir bod CDLI Newydd yn cael ei baratol ar gyfer y cyfnod 2021-2036.

## 11. ATODIADAU

### 11.1. ATODIAD 1: CYNNYDD A WNAED AR DDYRANIADAU TAI'R CDLL

<b>Enw Dyraniad Safle</b>	<b>Cyfanswm yr Anheddau a Gynigir o dan Bolisi MG2</b>	<b>Nifer yr Anheddau wedi'u cymeradwyo ar 1 Ebrill 2021 *yn amodol ar A106</b>	<b>Statws</b>
Cam 2, Glannau'r Barri	1700	1,527	Yn cael ei adeiladu - rhagwelir cwblhau'r cam olaf yn 2024
Tir ym Mhen Uchaf Sain Tathan	220	108	Cam 1 - Cwblhau 100 o anheddau Cam 2 - cymeradwyaeth rannol ar gyfer 8 annedd nad ydynt wedi dechrau. Mae'r datblygwr/tirfeddiannwr wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Cyngor am weddill y dyraniad.
Tir yn Church Farm, Sain Tathan	250	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol
Cyn-safle'r Stadiwm / Tir gerllaw Burley Place, Sain Tathan	65	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol. Mae'r safle'n cael ei farchnata ar ran y perchennog ar hyn o bryd.
Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewys	255	253	Cais 2019/01408/RES - Rhagwelir y bydd yn dechrau ar y safle yn 2021
Tir gerllaw Froglands Farm, Llanilltud Fawr	90	100*	Cais 2020/00352/OUT wedi'i gymeradwyo ar gyfer hyd at 100 o anheddau - rhagwelir dechrau ar y safle yn 2022/23
Tir rhwng Ffordd Fynediad newydd y Gogledd ac Eglwys Brewis Road	375	140*	Cais 2020/00351/OUT wedi'i gymeradwyo - rhagwelir dechrau ar y safle yn 2022/23

Parc Pleser Ynys y Barri	25	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol.
White Farm	177	177	Cwblhawyd
Tir i'r dwyrain o Pencoedre Lane	67	67	Cwblhawyd
Tir i'r gorllewin o Pencoedre Lane (diwygiwyd)	137	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio. Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae o fewn Blaengynllun Datblygu Tai'r Cynghorau
Ysgol Maes Dyfan	81	81	Cwblhawyd
Llys Ynadon y Barri	52	52	Cwblhawyd
Depo Court Road, y Barri	50	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio  Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor a chaiff ei ddatblygu at ddefnydd addysgol. Dylid nodi bod elfen o'r safle yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer 11 uned llety dros dro i fynd i'r afael â digartrefedd.
Holm View	50	11	Mae'r safle wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Tai'r Cyngor. Cam 1 wedi'i gwblhau - rhagwelir cwblhau cam 2 yn 2024
Hayes Wood, The Bendricks	55	0	Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Tai'r Cyngor ac mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd (cyf 2021/00378/REG3).
Ysgol Gyfun Is y Bont-faen	21	21	Cwblhawyd
Bloc 6ed Dosbarth Ysgol Gyfun y Barri, Aberthin Road	20	0	Mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd (cyf 2018/01408/FUL)
Tir sy'n ffinio â St Athan Road, y Bont-faen	130	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cyfredol. Mae'r datblygwr/tirfeddiannwr wedi cymryd rhan mewn trafodaethau

			cyn ymgeisio gyda'r Cyngor.
Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen	475	475	Yn cael ei adeiladu - rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn 2025/26
Fferm Plasnewydd, Llanilltud Fawr	149	149	Cwblhawyd
Tir ger Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr	70	89	Cam 1 wedi'i Gwblhau - Cam 2 yn cael ei adeiladu a rhagwelir y caiff ei gwblhau yn 2021
Cyn-Ysgol Gynradd Eagleswell	72	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cyfredol.  Mae'r safle yn eiddo i'r Cyngor ac mae o fewn Blaengynllun Datblygu Tai'r Cyngor
Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog (diwygiwyd)	576	0	Mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd (cyf 2020/01170/OUT)
Tir sy'n ffinio ag Ysgol St. Joseff, Sully Road, Penarth	74	74	Cwblhawyd
Ysgol Headlands, St Augustine's Road	65	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio cyfredol.
Tir ger Oak Court, Penarth	145	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cynllunio  Mae'r safle wedi'i gynnwys ym Mlaengynllun Datblygu Tai'r Cyngor
Tir yn ac yn ffinio ag Ysgol St. Cyres, Murch Road	300	215	Yn cael ei adeiladu - rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn 2021
Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys	70	70	Cwblhawyd
Tir sy'n ffinio ag Ardwyn, Pen-y-Turnpike	18	18	Cwblhawyd
Tir yn Cross	50	50	Cwblhawyd



Common Road			
Tir i'r de o Fryn Llandochau / Heol Penarth	130	0	Mae cais cynllunio yn cael ei ystyried ar hyn o bryd (cyf 2020/01590/HYB)
Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd	8	40	Yn cael ei adeiladu - rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn 2022
Llandough Landings	120	0	Heb ddechrau - dim caniatâd cyfredol
Tir i'r gogledd o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	700	347	Cam 1 y Gorllewin yn cael ei adeiladu.  Cam 2 y Dwyrain - dim caniatâd cynllunio cyfredol.
Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	87	87	Cwblhawyd
Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili	500	325	Wrthi'n adeiladu
Tir i'r Gorllewin o Port Road, Gwenfô	132	132	Cwblhawyd
Tir ger Court Close, Aberthin	20	20	Cwblhawyd
Tir i'r Dwyrain o Dresimwn	120	120	Wrthi'n adeiladu
Tir i'r cefn o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn	64	64	Cwblhawyd
ITV Wales, Croes Cwrlwys	224	224	Cwblhawyd
The Garden Emporium, Fferm Goch	40	40	Cwblhawyd
Canolfan Breswyl Ogwr	70	70	Cwblhawyd

Maes Carafanau Ogwr	100	100	Cwblhawyd
Tir i'r Dwyrain o Sain Nicolas	117	117	Cwblhawyd
Tir oddi ar St. Brides Road, y Wig	124	124	Cwblhawyd
Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen	85	40	<p>Cam 1 - cwblhawyd 40 o anheddau.</p> <p>Cam 2 - dim caniatâd cyfredol. Mae'r datblygwr/tirfeddiannwr wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r Cyngor.</p>

11.2. ATODIAD 2: CYNNYDD A WNAED O RAN DARPARU SAFLEOEDD TAI FFORDDIADWY Y CDLL

Dyranriad CDLI	% y Tai Fforddiadwy a Sicrhawyd
<b>Ardal Is-farchnad Tai: Gwledig</b>	
Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-faen	40%
Tir yn ffinio â Court Close, Aberthin	40%
Tir i'r cefn o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn	35% - 25% ar y safle a chyfraniad <i>in lieu</i> o 10% oddi ar y safle.
Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Canolfan Breswyl Ogwr	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Maes Carafanau Ogwr	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Tir oddi ar St. Brides Road, y Wig	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
The Garden Emporium, Fferm Goch	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
<b>Ardal Is-farchnad Tai: Dwyrain y Fro</b>	
Tir i'r Dwyrain o Dresimwn	20% - Gostyngiad mewn cyfraniad tai fforddiadwy oherwydd costau seilwaith.
Tir i'r Dwyrain o Sain Nicolas (100 o anheddau)	40% - 35% o anheddau fforddiadwy ar y safle a chyfraniad <i>in lieu</i> o 5% oddi ar y safle.
Tir i'r Dwyrain o Sain Nicolas (21 o anheddau)	40%
Tir i'r Gorllewin o Port Road, Gwenfô (131 o anheddau)	35% - 25% ar y safle a chyfraniad <i>in lieu</i> o 10% oddi ar y safle.
Tir i'r Gorllewin o Port Road, Gwenfô (12 o anheddau)	Cyfuniad o 40% o gyfraniadau ar ac oddi ar y safle
ITV Wales, Croes Cwrlwys	35% - 24% ar y safle a chyfraniad <i>in lieu</i> o 11% oddi ar y safle.
<b>ARDAL IS-FARCHNAD TAI: PENARTH, GAN GYNNWYS SILI, DINAS POWYS A LLANDOCHAU.</b>	
Tir yn Upper Cosmeston Farm, Penarth	Ymgeisydd yn cynnig 50%
Tir sy'n ffinio ag Ysgol St. Joseff, Sully Lane	35% - tystiolaeth hyfywedd yn cefnogi gostyngiad yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi.
Tir yn ac yn ffinio ag Ysgol St. Cyres, Murch Road	40%
Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys	40%
Tir yn Ardwyn, Pen-y-Turnpike	40%
Tir yn Cross Common Road	40%
Tir i'r gogledd o Heol Lecwydd	40%
Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road, Sili	40%
Annisgwyl - Hen Chwarel Llandochoau (cais 2013/00632/FUL)	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Annisgwyl - Highlands Penarth (cais 2016/01142/FUL)	27% - tystiolaeth hyfywedd yn cefnogi gostyngiad yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi.
<b>Y FARCHNAD DAI: Y DE GWLEDIG A'R ARFORDIR</b>	

Tir ym Mhen Uchaf Sain Tathan (rhan o 100 o anheddau)	30% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Tir ym Mhen Uchaf Sain Tathan (rhan o 5 annedd)	35%
Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewys, Sain Tathan	17% - tystiolaeth hyfywedd yn cefnogi gostyngiad yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi.
Safle A: Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewis Road, Llanilltud Fawr	35%
Safle B: Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewis Road, Llanilltud Fawr	35%
Fferm Plasnewydd	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Tir gerllaw Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr (Cam 1)	29.23% - Roedd cyfyngiadau ar y safle a thystiolaeth hyfywedd yn cefnogi darpariaeth lai yn unol â pholisi.
Tir gerllaw Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr (Cam 2)	19% - Roedd cyfyngiadau ar y safle a thystiolaeth hyfywedd yn cefnogi darpariaeth lai yn unol â pholisi.
Tir i'r Gogledd o Linell y Rheilffordd, Y Rhws (Cam 1 Y Dwyrain)	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, y Rhws	35% - sy'n adlewyrchu'r gofyniad polisi ar adeg y gymeradwyaeth gynllunio
<b>IS-FARCHNAD TAI - DWYRAIN Y BARRI</b>	
White Farm	20% o dai fforddiadwy fel y diffiniwyd yng Nghynllun Datblygu Unedol y Cyngor ar y pryd.
Tir i'r dwyrain o Bencoedtre	30%
Ysgol Maes Dyfan	30%
Llys Ynadon y Barri	Cynllun 100% tai fforddiadwy
<b>IS-FARCHNAD TAI - GORLLEWIN Y BARRI</b>	
Cam 2, Glannau'r Barri	15% - tystiolaeth hyfywedd yn cefnogi darpariaeth lai yn unol â pholisi.

11.3. ATODIAD 3: CYNNYDD A WNAED AR DDYRANIADAU CYFLOGAETH Y CDLL

<b>Safleoedd Cyflogaeth Strategol - Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd</b>		
<b>Lleoliad</b>	<b>Manylion</b>	<b>Ardal Gymeradwy / Ddatblygedig (ha)</b>
MG9 Tir i'r De o Gyffordd 34 M4 Hensol	2014/00228/EAO Caniatâd cynllunio amlinellol gyda phob mater wedi'i neilltuo ac eithrio mynediad, ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys defnyddiau dosbarth B1, B2 a B8; gwesty/canolfan hyfforddi breswyl (dosbarth C1/C2); a defnyddiau ategol o fewn dosbarth A1, A2, A3; gwaith a seilwaith peirianeg a modelu tir cysylltiedig, parcio ceir, draenio a mynediad at bob defnydd; darparu seilwaith (gan gynnwys canolfan(nau) ynni); tirlunio a'r holl waith galluogi ategol.	34.78 ha
MG9 (2) Tir ger Maes Awyr Caerdydd a Port Road, y Rhws (rhan o Ardal Fenter Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd)	Caniatâd Cynllunio Amlinellol 2019/00871/OUT - Cais amlinellol yn cynnwys dymchwel adeiladau presennol a chodi 44.79ha o Barc Busnes Dosbarth B1/B2/B8, parcio ceir, tirlunio, seilwaith draenio, darpariaeth bioamrywiaeth a gwaith ategol. Pob mater wedi'i gadw'n ôl ac eithrio mynediad.	44.79ha
MG9 (3) Parc Busnes Awyrod, Sain Tathan, y Rhws	2016/00617/LAW Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon - Defnydd arfaethedig gan Aston Martin Lagonda Limited; prif ddefnydd ar gyfer gweithgynhyrchu ac adeiladu ceir modur (Dosbarth B2), gyda defnyddiau ategol ar gyfer storio/dosbarthu, swyddfa, derbynfa a man arddangos, ffreutur staff a pharcio. Caniatâd Cynllunio 2016/00890/FUL - gweithrediadau adeiladu Cam 1, sy'n cynnwys trosi a newid rhan ogleddol yr adeilad cymorth presennol i ddarparu derbynfydd wedi'u huwchraddio, swyddfydd, ystafelloedd cyfarfod, cegin, caffeteria staff a man arddangos ynghyd â newidiadau i ddarparu derbynfydd wedi'u huwchraddio, swyddfydd, ystafelloedd cyfarfod, cegin, caffeteria staff a man arddangos ynghyd â newidiadau i gylchrediad allanol a pharcio, a thirlunio. Caniatâd Cynllunio 2017/00756/FUL - Newidiadau Adeiladu Cam 2, sy'n cynnwys cilfachau llwytho arfaethedig a mewnlenni arwynebedd dan do cyfredol. Caniatâd Cynllunio 2019/01260/HYB - Cynllunio hybrid sy'n cynnwys: caniatâd cynllunio llawn ar gyfer dymchwel strwythurau presennol ac adeiladu ffordd wasanaeth newydd, slab/ffedog adeiladu a draenio cysylltiedig; a chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer codi hyd at 40,000 metr sgwâr AMG o gyfleusterau cyflogaeth gweithredol yn ardal ochr yr awyr (Dosbarth B1 a/neu Ddosbarth B2 a/neu Ddosbarth B8), parcio cerbydau, gwasanaethu a'r holl waith adeiladu a pheirianeg cysylltiedig gyda phob mater arall wedi'i gadw'n ôl	46.997 ha
	Caniatâd Cynllunio 2016/01367/FUL - Adeiladau storio arfaethedig o fewn safle wedi'i ffensio	0.54 ha
	Caniatâd Cynllunio 2015/01133/FUL - Codi cyfleuster hyfforddi hofrenyddion unllawr	0.026 ha
	Caniatâd Cynllunio 2013/00699/FUL - Codi awyrendy sy'n darparu cyfleuster chwilio ac achub hofrenyddion newydd	1.35 ha
	Caniatâd Cynllunio 2019/01314/FUL - Cynigir Datblygiad PV Solar 1.465MW wedi'i Osod ar y Ddaear	0.96ha
	Caniatâd Cynllunio 2020/00106/FUL - Adeilad diwydiannol newydd ar gyfer boeler biomas a storio pren	0.256ha
<b>Safleoedd Cyflogaeth Lleol - Ceisiadau Cynllunio a Gymeradwywyd</b>		
<b>Lleoliad</b>	<b>Manylion</b>	<b>Ardal</b>

		Gymeradwy / Ddatblygedig (ha)
MG9 (4) Ystâd Fasnachu'r Iwerydd	2014/00932/FUL - Plot 3B, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, y Barri - Adeiladu unedau diwydiannol a busnes ysgafn wedi'u fframio â phorth, gan greu datblygiad bach o unedau sy'n addas ar gyfer busnesau sy'n tyfu a busnesau newydd. 2015/00668/FUL - Plot 3B, Porth yr Iwerydd, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Hayes Road, y Barri - Datblygu warws ac adeiladu swyddfeydd cysylltiedig. 2017/00316/FUL Plot 3B, Porth yr Iwerydd, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Hayes Road, y Barri - Adeiladu uned fasnachol unllawr ysgafn, wedi'i rhannu'n 4 uned ar wahân 2020/01367/RG3 - Plot C, Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri - Cyfleuster adfer adnoddau arfaethedig a gwaith cysylltiedig.	2.13ha
MG9 (5) Tir yn Ffordd y Mileniwm	Dd/B	Dd/B
MG9 (6) Hayes Lane, Sili	2018/01317/FUL - Spider Camp, Hayes Lane, Sili - Adeiladu chwe adeilad wedi'u fframio â phorth a ffyrdd cysylltiedig, rhannu adeiladau i ffurfio 43 o unedau diwydiannol ysgafn	1.4 ha
MG9 (7) Hayes Road, Sili	Dd/B	Dd/B
MG9 (8) Hayes Wood, Y Barri	Dd/B	Dd/B
MG9 (9) Ystâd Fasnachu Llandŵ	Dd/B	Dd/B
MG9 (10) Parc Busnes y Fro	Dd/B	Dd/B
MG9 (11) Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol	2019/01421/RES - Renishaw Plc, Parc Busnes Meisgyn, Meisgyn - Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl (ymddangosiad, graddfa, cynllun, mynediad a thirlunio) ar gyfer cam cyntaf y datblygiad sy'n ymwneud â Pharthau A, W, Y a Z sy'n darparu 33,909 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 a B8) a gwaith cysylltiedig yn unol â chaniatâd amlinellol 2014/00228/EAO	7.8ha

#### 11.4. ATODIAD 4: CYNNYDD A WNAED O RAN DARPARU SEILWAITH TRAFNIDIAETH Y CDLL

##### DYRANIADAU TRAFNIDIAETH

11.4.1. Roedd y CDLI yn cynnwys nifer o ddyraniadau trafndiaeth yr ystyriwyd eu bod yn darparu gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith trafndiaeth yn ardal yr Awdurdod sy'n cefnogi amcanion strategol y Cynllun. Nodwyd llawer o'r datblygiadau a ddyrannwyd yng Nghynllun Trafndiaeth Rhanbarthol SEWTA a phan fabwysiadwyd y CDLI roedd y dyraniadau trafndiaeth ar wahanol gamau. Mae'r tabl isod yn amlinellu statws presennol y dyraniadau trafndiaeth:

##### Datblygiadau Trafndiaeth a Ddyrannwyd

Enw'r Safle / Lleoliad	Natur y Datblygiad	Cyf Polisi	Cyf y Cais	Statws
Llwybr Beicio Cenedlaethol 88 a chysylltiadau lleol a threfol cysylltiedig	Cerdded a beicio	MG16 (1)	Cyfraniadau a.106 a Chynlluniau Awdurdodau Prifffyrdd Lleol	Parhaus - Bu'r ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus ar gyfer dyluniad manwl y rhan rhwng Cylchfan Biglis a Gladstone Road, Y Barri a Llanmaes Road, Llanilltud Fawr.
Yr A4050 Port Road i Faes Awyr Caerdydd	Cerdded a Beicio	MG16 (2)	Dd/B	Wedi'i gwblhau'n rhannol yn 2016 hyd at Weycock Cross. Darparu seilwaith cerdded a beicio rhwng cylchfan Weycock Cross a maes awyr Caerdydd erbyn 2026 drwy Adran 106 a grant Llywodraeth Cymru (yn amodol ar gymeradwyaeth).
A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont	Cerdded a Beicio	MG16 (3)	Cyfraniadau a.106 a Chynlluniau Awdurdodau Prifffyrdd Lleol	Heb ddechrau
Eglwys Brewis Road mewn cysylltiad â'r Ffordd Fynediad Ogleddol arfaethedig, Ardal Fenter Sain Tathan	Cerdded a Beicio	MG16 (4)	2017/00564/FUL	Cwblhawyd
Glannau'r Barri i Ddinas Powys	Cerdded a Beicio	MG16 (5)	Cyfraniadau a.106 a Chynlluniau Awdurdodau Prifffyrdd Lleol	Parhaus - Cynlluniau gwella amrywiol wedi'u cwblhau, fodd bynnag, erys gwaith sylweddol i wella rhan Ffordd Caerdydd sy'n cysylltu'r Barri â Dinas Powys
Moderneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd	Rheilffordd	MG16 (6)	Llywodraeth Cymru	Parhaus - Metro De-ddwyrain Cymru
A4050 Croes Cwrlwys i Faes Awyr Caerdydd	Bws	MG16 (7)	Cyfraniadau a.106	Cwblhawyd
A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-Bont ar Ogwr drwy'r Bont-Faen	Bws	MG16 (8)	Cyfraniadau a.106 a Chynlluniau Awdurdodau	Heb ddechrau

			Priffyrdd Lleol	
Merrie Harrier Ffordd Caerdydd, Y Barri i Gaerdydd drwy Barry Road	Bws	MG16 (9)	Cyfraniadau a.106 a Chynlluniau Awdurdodau Priffyrdd Lleol	Heb ddechrau
Heol Lecwydd, Llandochau i Gaerdydd	Bws	MG16 (10)	Cyfraniadau a.106 a Chynlluniau Awdurdodau Priffyrdd Lleol	Heb ddechrau
Lavernock Rd i Gaerdydd ar hyd y Morglawdd	Bws	MG16 (11)	Awdurdod Priffyrdd Lleol	Heb ddechrau
Parcio a theithio bws yn Cosmeston Penarth	Bws	MG16 (12)	Awdurdod Priffyrdd Lleol	Heb ddechrau
Ffordd Gyswllt Ynys y Barri	Priffyrdd	MG16 (13)	2010/00696/FUL	Cwblhawyd
Ffordd Fynediad Ogleddol (Ardal Fenter Sain Tathan)	Priffyrdd	MG16 (14)	2017/00564/FUL	Cwblhawyd
Silstwn – Hen Felin B4265	Priffyrdd	MG16 (15)	Cynllun priffyrdd	Cwblhawyd
Gwelliannau i'r A4226 rhwng Waycock Cross, Y Barri a Sycamore Cross, A48 (Lôn Pum Milltir)	Priffyrdd	MG16 (16)	2016/00305/RG3	Cwblhawyd
Gwelliannau i gyffordd Cross Common Road	Priffyrdd	MG16 (17)	2015/00928/RG3	Cwblhawyd
I'r gogledd o'r A48, gwelliannau i Bonvilston Road.	Priffyrdd	MG16 (18)	2015/00960/FUL	Cwblhawyd
Ffordd Gyswllt rhwng yr A48 a Llantwit Major Road, y Bont-faen.	Priffyrdd	MG16 (19)	2017/00841/RES 2018/00240/RES	Cwblhawyd Cwblhau'r ffordd gyswllt (datblygiad preswyl yn parhau)
Cyfnewidfa fysis Gorsaf Doc y Barri	Cyfnewidfeydd	MG16 (20)	Dd/B	Heb ddechrau



## 11.5. ATODIAD 5: TABL ARFARNU ADOLYGIAD POLISI'R CDLL

11.5.1. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r asesiad adolygu polisi a gynhaliwyd gyda'r tîm Rheoli Datblygu i sicrhau, yn ogystal ag ystyried gweithrediad y polisiâu fel y'u hysgrifennwyd, bod unrhyw gyfyngiadau neu hepgoriadau yn cael eu cynnwys gan y rhai sy'n gweithredu polisiâu'r CDLI. Ar gyfer pob polisi, dylid tybio y gallai fod angen diwygiadau i adlewyrchu newidiadau cyd-destunol, tystiolaeth, deddfwriaeth wedi'i diweddarau, a pholisiâu cenedlaethol a darparu ar gyfer newidiadau i strategaeth ofodol yn y dyfodol.

Polisiâu Strategol	Sylwadau
SP1 Gwireddu'r Strategaeth	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen adolygiad i ystyried meini prawf yn erbyn unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i strategaeth ofodol y CDLI Newydd.
SP2 Safleoedd Strategol	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen adolygiad i ystyried y cynnydd hyd yma ar safleoedd strategol presennol ac unrhyw ddiwygiadau i strategaeth ofodol a thwf y CDLI yn y dyfodol.
SP3 Gofyniad Preswyl	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn ystyried yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf ar gyfer cyfnod diwygiedig y cynllun.
SP4 Darpariaeth Tai Fforddiadwy	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygio'r polisi i adlewyrchu canfyddiadau'r dystiolaeth ddiweddaraf ar arfarniadau hyfywedd safle-benodol ac Aseiad o'r Farchnad Dai Leol y Cyngor ar dai fforddiadwy a'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn.
SP5 Gofynion Cyflogaeth	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygio'r polisi er mwyn nodi'r gofynion tir cyflogaeth ar gyfer cyfnod y cynllun newydd, er mwyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf o anghenion cyflogaeth.
SP6 Manwerthu	Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn nodi'r angen am ofod llawr manwerthu ychwanegol dros gyfnod y cynllun newydd, gan adlewyrchu'r dystiolaeth fanwerthu ddiweddaraf ar ofynion manwerthu'r ddarpariaeth bresennol ac yn y dyfodol. Mae angen i bolisi hefyd adlewyrchu rôl canol trefi fel y nodir mewn polisi cenedlaethol.
SP7 Trafnidiaeth	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen adolygiad i ystyried cynlluniau trafndiaeth wedi'u cwblhau, cynlluniau trafndiaeth arfaethedig yn y Metro ac i gyflawni amcanion y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol. Mae angen i welliannau ystyried teithio llesol ac adlewyrchu blaenoriaethau trafndiaeth sy'n gyson â'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy genedlaethol sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat.
SP8 Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen adolygiad polisi i benderfynu ai'r

	lleoliadau a nodir yn y polisi yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff i barhau i ddiwallu anghenion Bro Morgannwg a chyflawni'r targedau cenedlaethol ar gyfer gwastraff dros gyfnod y cynllun newydd.
SP9 Mwynau	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen diwygio'r polisi i adlewyrchu Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf De Cymru ar Agregau.
SP10 Amgylchedd Adeiledig a Naturiol	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Adolygiad yng ngoleuni polisi cenedlaethol.
SP11 Twristiaeth a Hamdden	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
<b>Polisiâu Rheoli Twf</b>	<b>Sylwadau Polisi</b>
MG1 Cyflenwad Tai ym Mro Morgannwg	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygiadau i'r polisi i adlewyrchu'r lefel ddiwygiedig o dwf tai dros gyfnod newydd y cynllun mewn perthynas â'r data diweddaraf am aelwydydd a phoblogaeth a'r strategaeth ofodol.
MG2 Dyraniadau Tai	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygiadau i'r polisi i adlewyrchu'r lefel ddiwygiedig o dwf tai a'r strategaeth ofodol dros y cynllun newydd, pa mor realistig yw'r dyraniadau tai presennol a dyraniadau newydd i fodloni'r gofyniad tai diwygiedig.
MG3 Safle Strategol yng Nglannau'r Barri	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen adolygu'r polisi yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Glannau'r Barri ochr yn ochr â dyheadau adfywio'r Cyngor.
MG4 - Tai Fforddiadwy	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygio'r polisi i ystyried targedau ac ardaloedd tai fforddiadwy i adlewyrchu'r adolygiad o dystiolaeth hyfywedd, ardaloedd marchnad dai ac arfarniadau hyfywedd safle-benodol.
MG5 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu canfyddiadau Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor pan gaiff ei gyhoeddi yn 2022. Bydd yn ofynnol i'r polisi fynd i'r afael â'r angen presennol a nodwyd a'r angen yn y dyfodol dros gyfnod diwygiedig y cynllun. Bydd angen i'r polisi hefyd adlewyrchu canfyddiadau astudiaeth ranbarthol o safleoedd trawsteithiol sipsiwn a theithwyr sydd i'w chomisiynu'n rhanbarthol.
MG6 Darparu Cyfleusterau Addysgol	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen adolygu'r polisi i adlewyrchu'r modd y darparwyd cyfleusterau addysgol hyd yma ochr yn ochr ag anghenion addysgol Bro Morgannwg dros gyfnod diwygiedig y cynllun. Bydd angen i bolisi hefyd adlewyrchu'r egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol.

MG7 Darparu Cyfleusterau Cymunedol	Bydd angen adolygu'r polisi i adlewyrchu'r modd y darparwyd cyfleusterau cymunedol hyd yma ochr yn ochr â chyfleusterau cymunedol ychwanegol sydd eu hangen dros gyfnod diwygiedig y cynllun i ddarparu ar gyfer strategaeth twf y dyfodol. Bydd angen i bolisi hefyd ddiogelu cyfleusterau presennol ac adlewyrchu'r egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol.
MG8 Darparu Cyfleusterau Iechyd	Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn sicrhau bod y CDLI yn cefnogi gofynion gofal iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn y dyfodol. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys dyrannu safleoedd ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd o fewn y cynllun. Bydd angen i bolisi hefyd ddiogelu cyfleusterau presennol ac adlewyrchu'r egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol.
MG9 Dyraniadau Cyflogaeth	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas ag anghenion cyflogaeth y dyfodol dros gyfnod diwygiedig y cynllun.
MG10 Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd – Sain Tathan	Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu'r cynnydd hyd yma o ran yr Ardal Fenter a dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd – Bro Tathan yn y dyfodol.
MG11 Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol	Bydd angen adolygu'r polisi i adlewyrchu'r cynnydd hyd yma a'r dystiolaeth ddiweddaraf o anghenion cyflogaeth.
MG12 Hierarchaeth Manwerthu	Mae tystiolaeth yr AMB yn dangos y bydd angen adolygiad o bolisi manwerthu'r Cynllun. Diwygio i adlewyrchu polisi cenedlaethol mewn perthynas â chanol trefi. Adolygu'r ardaloedd manwerthu presennol.
MG13 Ardaloedd Manwerthu ar y Cyffiniau a'r Tu Allan i'r Dref	Angen adolygu'r polisi yng ngoleuni tystiolaeth AMB ac i adlewyrchu polisi cenedlaethol. Adolygu ardaloedd manwerthu ar y cyffiniau a'r tu allan i'r dref.
MG14 Defnyddiau Manwerthu nad ydynt yn A1 mewn Canolfannau Manwerthu Tref ac Ardal	Mae tystiolaeth yr AMB yn dangos y bydd angen adolygiad o bolisi manwerthu'r Cynllun. Mae'n debygol y bydd angen dull mwy hyblyg yn unol â pholisi cenedlaethol.
MG15 Defnyddiau Manwerthu nad ydynt yn A1 mewn Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth	Mae tystiolaeth yr AMB yn dangos y bydd angen adolygiad o bolisi manwerthu'r Cynllun. Mae'n debygol y bydd angen dull mwy hyblyg yn unol â pholisi cenedlaethol.
MG16 Cynigion Trafnidiaeth	Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen diwygiadau i ystyried cynlluniau trafndiaeth sydd wedi'u cwblhau hyd yma, cynlluniau trafndiaeth arfaethedig y Metro, y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol ac i adlewyrchu egwyddor yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy fel y nodir mewn polisi cenedlaethol.
MG17 Ardaloedd Tirwedd Arbennig	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol

MG18 Lletemau Gwyrdd	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG19 Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG20 Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG21 Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, sy'n Bwysig yn Rhanbarthol Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol a Chynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG22 Datblygiad mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG23 Parthau Clustogi Chwareli	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol - bydd angen adolygu clustogfeydd mwynau er mwyn adlewyrchu Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf De Cymru ar Agregau
MG24 Safleoedd Mwynau Segur	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol - efallai y bydd angen diwygio'r rhestr o safleoedd mwynau segur gan ystyried cynnydd ar orchmynion gwahardd/Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf De Cymru ar Agregau
MG25 Gwaith Mwynau (gan gynnwys Echdynnu Olew a Nwy)	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG26 Safleoedd Penodol ar gyfer Gwaith Mwynau	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol - efallai y bydd angen diwygio'r polisi i adlewyrchu Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf De Cymru ar Agregau.
MG27 Arfordir Treftadaeth Morgannwg	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MG28 Dyraniadau Mannau Agored Cyhoeddus	Mae angen diwygio'r polisi er mwyn adlewyrchu'r cynnydd hyd yma ac adlewyrchu gofynion manau agored yn y dyfodol i gefnogi'r strategaeth dros gyfnod y cynllun a Strategaeth Seilwaith Gwyrdd y Cyngor pan gaiff ei fabwysiadu.
MG29 Cyfleusterau Twristiaeth a Hamdden	Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn ystyried blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer twristiaeth a hamdden dros gyfnod diwygiedig y cynllun.
MG30 Ardaloedd Chwilio Lleol am Ynni Solar	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
<b>Rheoli Polisiau Datblygu</b>	<b>Sylwadau Polisi</b>
MD1 Lleoliad Datblygiad Newydd	Bydd angen adolygu'r polisi i adlewyrchu'r strategaeth ofodol ac unrhyw newidiadau i'r hierarchaeth aneddiadau ar gyfer cyfnod diwygiedig y cynllun.
MD2 Dylunio Datblygiad Newydd	Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn sicrhau bod polisi'n cefnogi egwyddorion Creu Lleoedd Cenedlaethol ac yn hyrwyddo iechyd a lles, teithio llesol ac amcanion seilwaith gwyrdd.
MD3 Darpariaeth Mannau Agored	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.

MD4 Seilwaith Cymunedol a Goblygiadau Cynllunio	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Tynnu cyfeiriadau at ASC.
MD5 Datblygiad o fewn Ffiniau Aneddiadau	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MD6 Dwyseddau Tai	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen adolygu'r polisi i gyfeirio at egwyddorion creu lleoedd a'r targed o 50 o anheddau yr hectar o leiaf mewn ardaloedd trefol a nodir yn Cymru'r Dyfodol.
MD7 Diogelu'r Amgylchedd	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MD8 Yr Amgylchedd Hanesyddol	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MD 9 Hyrwyddo Bioamrywiaeth	Mae angen adolygu'r polisi er mwyn adlewyrchu gofyniad statudol y Cyngor i warchod a gwella bioamrywiaeth fel y nodir o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd 2016. Polisi i'w ddiwygio fel bod cynigion datblygu'n darparu budd net i fioamrywiaeth.
MD10 Datblygiadau Tai Fforddiadwy y Tu Allan i Ffiniau Anheddiad	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Mae angen i'r adolygiad polisi ailystyried y terfyn anheddau o 10 a defnyddio dulliau amgen fel nad ydynt yn effeithio'n annerbyniol ar gymeriad y anheddiad.
MD11 Trawsnewid ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân ddiwygiadau i egluro unrhyw faterion e.e. estyniadau i addasiadau ysgubor a'r angen am achos busnes mewn perthynas â throsiadau gosodiadau gwyliau.
MD12 Aneddiadau yng Nghefn Gwlad	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân ddiwygiadau i egluro materion fel cymesuredd, yr ystod a'r dewis o gartrefi yng nghefn gwlad, adeiladau allanol, anecs mamgu.
MD13 Twristiaeth a Hamdden	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol.
MD14 Cynigion Cyflogaeth Newydd	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân ddiwygiadau i gynnwys defnyddiau <i>sui generis</i> ac adlewyrchu polisi cenedlaethol mewn perthynas â chanol trefi.
MD15 Amddiffyn Safleoedd Cyflogaeth a Ddyrennir	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol - Adolygu yn ôl yr angen i adlewyrchu canfyddiadau adolygiad tir cyflogaeth a pholisi cenedlaethol.
MD16 Amddiffyn Safleoedd Cyflogaeth Presennol	Bydd angen adolygu'r polisi er mwyn egluro ei fod yn cyfeirio at yr holl safleoedd cyflogaeth ac adeiladau presennol.
MD17 Mentrau Gwledig	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol ar fentrau gwledig / arallgyfeirio

	ffermydd.
MD18 Llety Sipsiwn a Theithwyr	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu deddfwriaeth, newidiadau cyd-destunol a pholisi cynllunio wedi'i ddiweddarau.
MD19 Cynhyrchiant Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Sicrhau bod polisi'n adlewyrchu polisi ynni adnewyddadwy cenedlaethol ac yn cefnogi targedau lleihau carbon i liniaru newid yn yr hinsawdd.
MD20 Asesu Cynigion Rheoli Gwastraff	Mae tystiolaeth AMB yn dangos bod y polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu deddfwriaeth, newidiadau cyd-destunol a pholisi cynllunio wedi'i ddiweddarau.





**Cyngor Bro Morgannwg  
Adfywio a Chynllunio**

Swyddfa'r Dociau,  
Heol yr Isffordd  
Y Barri,  
CF63 4RT

[LDP@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:LDP@valeofglamorgan.gov.uk)  
[www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)